Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

## CANLLAW ARFERION DA

# Cymorth Mabwysiadu

4

Cyswllt 1

Pontio a Chymorth Cynnar 2

Gweithio gyda Rhieni Biolegol 3

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

Statws a phwrpas y canllaw hwn ..... 4

Sut mae'r canllaw hwn yn gweithio a sut gall defnyddwyr wneud y mwyaf ohono ..... 5

4.1 Achosion gofal ..... 10

4.2 Achosion lleoli ..... 11

4.3 Canfod teulu ..... 12

4.4 Cysylltu ..... 13

4.5 Cynllunio paru ..... 14

4.6 Panel paru / Penderfynwr yr Asiantaeth ..... 15

4.7 Cynllunio cyflwyniadau ..... 15

4.8 Cyflwyniadau ..... 16

4.9 Lleoli ..... 16

4.10 Wythnosau / misoedd cynnar ..... 17

4.11 Penderfyniad i wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu ..... 19

4.12 Achosion Gorchymyn Mabwysiadu ..... 20

4.13 Ar ôl Gorchymyn Mabwysiadu ..... 21

Cydnabyddiaeth ..... 26

Cyfeiriadau ..... 27

Atodiad 1: Cynghrair Sibling – galw ac addewid ..... 29

Atodiad 2: Sut i ddefnyddio'r pedwar canllaw ar adeg benodol yn nhaith y plentyn ..... 30

Atodiad 3: Ar gyfer Mesurau Perfformiad Allweddol mewn perthynas â Gwaith Taith Bywyd ..... 30

Atodiad 4: Asesiad cymorth mabwysiadu ..... 31

Atodiad 5: Cynllun cymorth mabwysiadu ..... 33



Mae'r canllaw arferion da hwn wedi ei gynhyrchu gan AFA Cymru.
Mae wedi ei gomisiynu a'i ariannu gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) ar gyfer Cymru.



Cedwir yr holl hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.



Darlun clawr: Jess Coldrick

# Cyflwyniad

Mae cysyniad ac arferion cymorth mabwysiadu wedi datblygu gyda'n dealltwriaeth gynyddol o brofiadau'r sawl sy'n rhan o'r broses: y plentyn, y rhiant sy'n mabwysiadu a'r rhiant biolegol. Rhoddwyd sylfaen cyfreithiol i gymorth mabwysiadu gyda chyflwyniad y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a'r rheoliadau a aeth gyda hi. Ers hynny, mae ymchwil wedi amlygu'r angen i gael cymorth mabwysiadu i ddiwallu anghenion teuluoedd yn ystod plentyndod y plentyn.

Y prif esblygiad mewn cymorth mabwysiadu yn y pymtheng mlynedd ddiwethaf fu'r gydnabyddiaeth bod cymorth mabwysiadu yn rhywbeth a ddisgwylir wrth fod yn deulu sy'n mabwysiadu. Nid yw gofyn am gymorth bellach yn adlewyrchiad 'nad yw'r teulu hwn yn gallu ymdopi' ond yn hytrach 'mae'r teulu hwn yn ymgymryd â thasg rhianta gymhleth iawn ac mae'n debygol o fod angen cymorth' (Ottaway et al. 2014; Rushton a Dance, 2002; Pennington, 2012). Mae angen gweld cymorth mabwysiadu fel y norm, i fod yn hygyrch ac ar gael cyn hired ag y bo'i angen (Thomas, 2013, AUK, 2019, Stock et al., 2016, Bonin et al. 2014).

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GCM), yn ei Adroddiad Asesiad Gwaelodlin ar wasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru yn dweud ei fod eisiau gwella ***'mynediad cynnar at wasanaethau cymorth i wneud y mwyaf o les teuluoedd mabwysiadol trwy eu gwneud yn fwy gwydn a thrwy drawsnewid gwasanaethau yn unol â fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys amrediad o wasanaethau cymorth cynhwysol, gwasanaethau a dargedwyd a gwasanaethau arbenigol.'***

Mae'r canllaw yn ffurfio rhan o'r 'cynnig craidd' yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Mabwysiadu. Daeth y canllaw, sy'n nodi'r fanyleb ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru, i fodolaeth yn 2017 ar ôl ymarfer mewn mapio a chynllunio busnes ac ymchwil a gomisiynwyd a oedd yn dangos tystiolaeth o lefelau a math y gwasanaethau cymorth mabwysiadu a gynigiwyd i deuluoedd sy'n mabwysiadu yn ystod cyfnod cynnar ffurfio sefydliadau cydweithredol rhanbarthol. Mae'r model yn seiliedig ar ddarpariaeth tair rheng o wasanaeth cymorth.




**Cymorth Cynhwysol**

• Mynediad at gyngor mabwysiadu arbenigol, gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau • Fframwaith newydd i gynorthwyo plant a leolir • Mynediad i TESSA • Aelodaeth o AUK • Hyfforddiant paratoi ac ar ôl cymeradwyaeth • Gwybodaeth newydd a gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc • Trefniadau deunyddiau Taith Bywyd Newydd • Fframwaith newydd ar gyfer cysylltu • Cysylltu parhaus gan y gwasanaethau • Cyfarfod cyn-lleoli gyda chynghorydd meddygol • Mae gwasanaethau mewn iechyd, addysg a chymorth teuluol yn 'Ymwybodol o Fabwysiadu' • Digwyddiadau grwpiau cymorth/teulu • Gwell cymorth i Rieni Biolegol • Gwell mynediad at Gofnodion

**Cymorth a Dargedwyd**

• Trosolwg actif o gynlluniau cymorth parhaus • Asesiad ar gyfer cymorth newydd ar ôl lleoli • Lwfansau ariannol • Mynediad at wasanaethau therapiwtig • Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd • Dewislen o hyfforddiant mwy arbenigol ar ôl lleoli • Llwybrau i gymorth anghenion ychwanegol 'ymwybodol o fabwysiadu' mewn ysgolion, CAMHS a gwasanaethau iechyd eilaidd/trydyddol • Gwaith taith bywyd therapiwtig

**Cymorth Arbenigol**

• Asesiad a gwasanaethau CAMHS arbenigol • Asesiad a gwasanaethau arbenigol / therapiwtig arbenigol eraill

Mae gwasanaeth cymorth cynhwysol yn rhoi'r cyfle i deuluoedd sy'n mabwysiadu gael mynediad at gyngor a chymorth ac i'r gwasanaeth cymorth mabwysiadu adnabod yr angen am help pellach, help a dargedwyd neu arbenigol, yn gynnar ar ôl asesiad llawn.

***'mae angen i ni gael agwedd 'buddsoddi i arbed' tuag at wasanaethau cymorth mabwysiadu – po gynharaf yr ymyrraeth, po orau i'r plentyn a'r teulu ac felly po orau i'r rhanbarth neu'r awdurdod lleol sy'n gorfod darparu a thalu am y gwasanaeth'*** (Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu)

Mae angen i fynediad at ddarpariaeth cymorth mabwysiadu fod yn syml, yn amserol ac yn ymatebol.

***'Investment is needed in adoption support services nationally in order to ensure high quality provision that meets needs rather than fits in with existing resources and promotes equity of access across Wales'*** (Ottaway et al, 2014, p.95).

Mae angen i weithwyr proffesiynol wybod am drawma a deall anghenion penodol teuluoedd sy'n mabwysiadu (Pennington, 2012; Ottaway et al, 2014, King et al. 2017) Mae'r "lens fabwysiadu" hon, hynny yw gallu gweld anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu, hyd yn oed flynyddoedd i lawr y llinell, yng nghyd-destun y trawma a brofodd y plentyn yn y teulu biolegol a thrawsnewidiadau dilynol, yn hanfodol er mwyn deall yr anghenion cymorth cymhleth a all godi.

## Statws a phwrpas y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn wedi ei lunio i adeiladu ar y fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer mabwysiadu a chymorth mabwysiadu yng Nghymru. Mae wedi ei ddylunio i adeiladu ar arferion da a datblygu dull Cymru gyfan. Disgwyliad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) yw y bydd y canllaw yn arwain at bawb sy'n cymryd rhan mewn mabwysiadu a chymorth mabwysiadu yng Nghymru yn derbyn yr un ansawdd o wasanaeth.

Mae'r canllaw yn cael ei ddrafftio ar adeg pan fo sefydliadau cydweithredol rhanbarthol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru yn gwneud cynnydd arwyddocaol o ran datblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn unol ag amcanion y GMC. Nod y canllaw yw adlewyrchu a gwella'r cynnydd hwnnw.

**Yr egwyddorion arweiniol ar gyfer y canllaw hwn yw:**

1) Mae gan deuluoedd sy'n mabwysiadu, cyn ac ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu, fynediad hawdd at gyngor a gwybodaeth ar wasanaethau cymorth mabwysiadu. Darperir y cyngor hwn gan ymarferwyr sydd â gwybodaeth am a phrofiad o fabwysiadu ac sy'n gweithio o sylfaen 'gwybodaeth am drawma';
2) Mae anghenion plentyn am gymorth mabwysiadu yn cael eu hadnabod yn gynnar iawn, gan gychwyn gyda AMP/B llawn a chadarn a'i ddilyn gan gyfarfod 'Deall y Plentyn' fel rhan o'r broses baru (**Cyfeiriwch at y canllaw Pontio**);
3) Defnyddir Cynllun Cymorth Mabwysiadu newydd a deinamig, nad yw wedi ei glymu i'r cynllun lleoliad mabwysiadu, ond sy'n symud ymlaen gyda'r teulu, o'r cyfnod paru, trwy a thu hwn y Gorchymyn Mabwysiadu;
4) System ar gyfer adolygu'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu a 'chadw mewn cysylltiad' sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion y plentyn wrth iddo dyfu i fyny a'r posibilrwydd o'r angen am gymorth ar adegau pontio a her. Nid yw'r system yn cau allan hawl reoleiddiol y teulu sy'n mabwysiadu i ofyn am asesiad o anghenion cymorth mabwysiadu ar unrhyw adeg;
5) Mae gwaith cydweithredol rhwng gweithwyr proffesiynol yn hanfodol. Mae angen nod cyffredin a dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud a sgiliau emosiynol-ddeallusol i feithrin a chynnal perthynas, a deall safbwynt eraill.

**Dylai llais y plentyn fod wrth graidd popeth rydym yn ei wneud:**

- Mae gennyf hawl i ddeall nad fy mai i yw hi nad oedd fy rhieni biolegol yn gallu gofalu amdanaf
- Mae gennyf hawl i ddisgwyl i unrhyw benderfyniadau a gymerir a'r canlyniadau gymryd i ystyriaeth fy mhrofiadau penodol i fel plentyn du neu leiafrif ethnig ac i barchu fy ethnigrwydd a fy nhreftadaeth ddiwylliannol.
- Mae gennyf hawl i ddeall pam na allaf fyw gyda fy nheulu biolegol
- Mae gennyf hawl i ddeall pam y gallwn neu na allwn fyw gyda fy mrodyr a'm chwiorydd
- Mae gennyf hawl i ddeall pam y mae mabwysiadu wedi ei ddewis ar fy nghyfer i
- Mae gennyf hawl i ddeall pam y dewiswyd y teulu penodol hwn ar fy nghyfer i
- Mae gennyf hawl i ddeall pam y gwnaed y trefniadau cadw mewn cysylltiad (cysylltiad) presennol
- Mae gennyf hawl i gadw mewn cysylltiad â'm teulu biolegol os yw hynny yn ddefnyddiol ac yn ddiogel
- Bydd fy rhieni biolegol yn cael cymorth i'w helpu nhw i gadw mewn cysylltiad gyda mi lle mae hynny wedi ei gytuno
- Mae gennyf hawl i gadw mewn cysylltiad gyda phobl eraill sy'n bwysig i mi, er enghraifft rhieni maeth lle mae hynny yn ddefnyddiol ac yn ddiogel
- Wrth feddwl am yr hyn rwyf ei angen, bydd gweithwyr proffesiynol yn meddwl am fy mhlentyndod cyfan, nid nawr yn unig
- Mae gennyf hawl i gael fy ngweld fel rhan o'r teulu mabwysiadol, nid yn unig fel unigolyn

Mae'r holl ganllawiau wedi cymryd i ystyriaeth galwad ac adduned y Gynghrair Siblingiaid, ac mae'r egwyddorion hynny wedi eu gwreiddio yn y canllawiau. **Gweler Atodiad 1**



## Sut mae'r canllaw hwn yn gweithio a sut gall defnyddwyr wneud y mwyaf ohono

Mae'r canllaw hwn yn sefyll ar ei ben ei hun. Serch hynny, gellir hefyd ei ddefnyddio ar y cyd â thri chanllaw arall. Maent yn delio gyda:

- Gweithio gyda rhieni biolegol
- Pontio a chymorth cynnar
- Cysylltiad

Er mwyn i'r ymarferwr, ac yn benodol, gweithiwr cymdeithasol y plentyn, gael y budd mwyaf o bob canllaw, mae'r canllawiau wedi eu trefnu yn ôl amser ac wedi eu rhifo, er mwyn rhoi rhwyddineb cyfeirio i'r ymarferwr. Er enghraifft, gallent edrych ar yr hyn sydd angen ei ystyried yn y cyfnod canfod teulu ar gyfer pob un o'r pedwar canllaw (1.3, 2.3, 3.3, a 4.3). Dylai'r diagram canlynol helpu o ran symud drwy'r canllawiau.

Gweler Atodiad 2 i gael manylion llawn y gweithwyr proffesiynol y mae'r canllaw wedi ei fwriadu ar eu cyfer, talfyriadau a therminoleg.

| **CYFNOD** | **1**<br>**CYSWLLT** | **2**<br>**PONTIO A CHYMORTH CYNNAR** | **3**<br>**GWEITHIO GYDA RHIENI BIOLEGOL** | **4**<br>**CYMORTH MABWYSIADU** |
|---|---|---|---|---|
| **TREFNIADAU GOFAL**<br>**1** | GCP – cyfarfod teulu.<br>GCP – sicrhau bod gan AMP/B wybodaeth ddigonol i fwydo gwybodaeth i'r cynllun cysylltiad.<br>GCP – LJW.<br>GCM – cyngor a chymorth i'r GCP. | GCP i wahodd GCM i ail adolygiad PDG.<br>Bydd AA yn dyrannu GCM i weithio gyda'r teulu biolegol.<br>GCP yn sicrhau bod cronoleg fanwl, cyn genedigaeth a hyd heddiw.<br>GCP yn ymgymryd â LJW.<br>SAA i fonitro cynnydd LJW. | GCP – dylid cael cyfarfod teulu os na ddigwyddodd yn yr ACG.<br>GCP yn sicrhau bod y teulu biolegol yn deall mai mabwysiadu yw un opsiwn wrth gynllunio.<br>GCP yn cyfeirio i'r rhanbarth am gymorth gyda chynllunio mabwysiadu.<br>GCM yn darparu 'cwnsela rhieni biolegol'.<br>GCP a GCM – cyfeirio i Myfyrio.<br>GCP – LJW. | GCP – adnabod anghenion hirdymor y plentyn yn y cynllun gofal ac yn AMP/B.<br>GCM yn mynychu ail adolygiad PDG i gynghori ar anghenion AS posibl.<br>GCM – cynllun cymorth PA yn yr ADF. |
| **ACHOSION GORCHYMYN LLEOLI**<br>**2** | GCP – cynllun gofal / AMP/B /cynllunio ar gyfer A26 a chysylltiad ar ôl mabwysiadu.<br>GCP – cynllunio ar gyfer cysylltiad gyda siblingiaid. | GCP – AMP/B yn ffurfio sylfaen y llinell amser trawma / anogaeth.<br>GCP a GCM yn cynllunio ar gyfer naratif 'symud ymlaen'. | GCP a GCM yn cytuno ar gyfathrebu effeithiol gyda RhB.<br>GCP yn cynllunio ar gyfer cysylltiad a26 | GCM i ddarparu cymorth i GCP amhrofiadol wrth ysgrifennu'r AMP/B.<br>GCP – adnabod anghenion cymorth hirdymor y plentyn yn yr AMP/B. |
| **CANFOD TEULU**<br>**3** | GCP – lleihau / cysylltiad ffarwelio dan a26 ACA.<br>GCP – gweithio gyda'r plentyn a'r rhiant maeth i sicrhau bod y plentyn yn deall pma fo cysylltiad yn newid.<br>GCM – cynorthwyo gyda'r uchod. | GCP – diweddaru AMP/B ar gynnydd y plentyn.<br>GCP a GCM yn adnabod sut y bydd DF yn diwallu anghenion y plentyn yn ystod y cyfnod pontio ac anghenion cymorth cynnar wrth edrych ar amrediad o.<br>GCP a GCM yn cytuno rolau a chyfrifoldeb o ran cynllun gwaith uniongyrchol. | GCP – hysbysu rhieni o gynnydd.<br>GCP yn gweithio gyda RhB ac aelodau eraill TB ar y cynllun cysylltiad a26.<br>GCP – diweddaru AMP/B ar sail unrhyw wybodaeth bellach gan y teulu biolegol. | GCP – diweddaru AMP/B ar gynnydd y plentyn.<br>GCM yn paratoi llinell amser trawma/anogaeth o wybodaeth yr AMP/B ac adnabod anghenion cymorth posibl.<br>AF yn rhoi cymorth i'r DF drwy gyfrwng gwasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysol. |

| CYFNOD | 1<br>CYSWLLT | 2<br>PONTIO A CHYMORTH CYNNAR | 3<br>GWEITHIO GYDA RHIENI BIOLEGOL | 4<br>CYMORTH MABWYSIADU |
|---|---|---|---|---|
| **CYSYLLTU**<br>**4** | GCP – diweddar AMP/B.<br>GCP a GCM – cysylltu gyda DF a phrofi eu hymrwymiad i gynllun cysylltiad y plentyn.<br>GCP – TGB. | GCM yn rhannu llinell amser trawma gyda DF.<br>GCP a GCM yn ymweld a chartref y DF.<br>GCP a GCM yn helpu DF i ddeall anghenion y plentyn hwn.<br>DF a RhM yn cyfarfod i ddatblygu perthynas cyn y Cyfarfod Deall y Plentyn. | GCP – hysbysu rhieni o'r cynnydd, gyda chymorth y GCM.<br>GCP a GCM yn cynllunio ar gyfer cyfarfod rhwng y RhB a'r DF. | GCP yn rhoi'r holl wybodaeth i'r DF ar y plentyn.<br>GCM a GCP yn cynnal y cyfarfod 'deall y plentyn', o'r hwn y bydd anghenion cymorth yn dod yn amlwg, efallai.<br>GCP a GCM yn cefnogi DF os gwneir cais am ganiatâd i ddirymu'r GLl. |
| **CYNLLUNIO PARU**<br>**5** | GCP a GCM yn rhoi at ei gilydd elfen cysylltiad y cynllun cymorth mabwysiadu.<br>GCP – cynllunio ar gyfer cysylltiad ffarwelio.<br>GCP a GCM yn cynllunio ar gyfer cyfarfod rhwng y RhB a'r DF. | Cynnal Cyfarfod Deall y Plentyn.<br>DF yn cael cyfnod i feddwl.<br>Cysylltiad anffurfiol pellach rhwng y DF a'r RhM.<br>Gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn.<br>GCP, gyda help y GCM, yn cwblhau'r ALlM a'r CCM.<br>Gweld y plentyn o bosib.<br>Cynllunio ar gyfer cyfarfod gyda'r RhB a'r DF. | GCP – hysbysu'r rhieni o'r cynnydd (gweler cyngor AFA ar gyfer GMC ar ddirymu ceisiadau GLl).<br>GCP a GCM i gysylltu ar drefniadau cysylltiad ffarwelio a chynnig cymorth i'r RhB. | GCP a GCM yn edrych ar anghenion cymorth penodol y plentyn a chryfderau a gwendidau DF er mwyn bwydo gwybodaeth i'r cynllun cymorth mabwysiadu.<br>GCP, gyda help y GCM, yn cwblhau<br>ALlM ac CCM sy'n cael eu rhannu gyda'r DF |
| **PANEL PARU / ADM**<br>**6** | Panel a'r PA i ystyried y cynllun cysylltiad arfaethedig. | Panel a'r PA i ystyried gwaith papur paru ac adroddiad yr UtCM. | GCP – hysbysu'r rhieni (gweler cyngor AFA i'r GMC ar ddirymu ceisiadau GLl).<br>GCP a GCM i ystyried trefniadau ar gyfer cyfarfod RhB a DF. | Panel a'r PA i ystyried os yw'r cynllun cymorth yn addas i'r pwrpas ac argymell/cymeradwyo paru. |
| **CYNLLUNIO CYFLWYNIADAU**<br>**7** | GCP a GCM – cynllunio ar gyfer cysylltiadau gyda gofalwyr maeth i gael eu cynnal ar ôl pontio.<br>Cyfarfod gyda RhB a DF. | GCM a GCP – dyrannu cytundeb PR.<br>GCM yn cynllunio cyfarfod cyflwyniadau.<br>Gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn. | GCP – hysbysu'r rhieni.<br>Cyfarfod gyda DF a RhB yn cael ei gynnal.<br>Cyfarfod gyda DF ac aelodau eraill y TB (e.e. siblingiaid hŷn) yn cael ei gynnal. | GCP a GCM yn cynnwys gweithwyr iechyd a/neu addysg wrth gynllunio lle bo'n briodol. |
| **CYFLWYNIADAU**<br>**8** | GCM a GCT yn cynorthwyo RhM a DF wrth feithrin perthynas a fydd yn cynnal lefel o gysylltiad. | GCM i arwain at y dull tri cham yn y cyflwyniadau.<br>Gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn.<br>GCM yn arwain adolygiad. | GCP – hysbysu'r RhB o ddyddiad y cyflwyniadau (gweler cyngor AFA ar gyfer y GMC ar ddirymu ceisiadau GLl). | GCP a GCM i newid y cynllun cymorth os daw anghenion ychwanegol i'r golwg yn ystod y cyflwyniadau. |

| CYFNOD | 1<br>CYSWLLT | 2<br>PONTIO A CHYMORTH CYNNAR | 3<br>GWEITHIO GYDA RHIENI BIOLEGOL | 4<br>CYMORTH MABWYSIADU |
|---|---|---|---|---|
| **LLEOLI**<br>**9** | GCP, GCM a GCT i sicrhau bod cysylltiad gyda'r rhieni maeth. | GCM yn darparu cymorth parhaus.<br>Gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn.<br>Cysylltiad gyda'r RhM. | GCP a GCM – cytundeb PR gyda'r DF. | GCM a GCP yn adolygu'r cynllun cymorth os daw anghenion ychwanegol y teulu newydd i'r golwg. |
| **WYTHNOSAU / MISOEDD CYNNAR**<br>**10** | GCM yn sicrhau bod llythyr setlo i mewn yn cael ei anfon at rieni biolegol ac eraill (o fewn 6 wythnos).<br>GCM, GCP ac SAA yn cefnogi DF a RhB wrth sefydlu patrwm cysylltu. | GCP – ymweliadau statudol ac adolygiadau.<br>IRO – adolygiadau.<br>GCM – cymorth parhaus.<br>Cysylltiad gyda RhM. | GCM a GCP – cynorthwyo DF i anfon llythyr at RhB.<br>SAA i sicrhau bod y llythyr wedi ei anfon. | GCP – ymwelidau statudol.<br>SAA – adolygiadau.<br>GCM – cymorth parhaus.<br>Pawb dan sylw yn rhoi sicrwydd y gall yr wythnosau a'r misoedd cynnar fod yn anodd yn aml. |
| **PENDRFYNIAD I WNEUD CAIS AM GM**<br>**11** | GCM a GCP – cynllun cysylltiad a chynllun cymorth cysylltiad yn Anecs A. | Cymryd penderfyniad ar ôl adolygiad ac mewn ymgynghoriad gyda DF a GCM. | GCP – hysbysiad o wrandawiad i rieni (rheoliadau).<br>GCM a GCP yn ystyried rhoi cymorth i'r RhB mewn perthynas â'r gwrandawiad. | GCP a GCM yn cynorthwyo DF mewn unrhyw gais am ganiatâd i wrthwynebu gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu. |
| **TREFNIADAU GM**<br>**12** | GCP a GCM i sicrhau bod cytundebau cysylltiad ar ôl mabwysiadu yn cael eu deall, ymrwymo iddynt a'u llofnodi. | GCP – ymweliadau statudol.<br>GCM – cymorth parhaus. | GCP a GCM yn cwblhau Anecs A.<br>GCP i ddiweddaru AMP/B ar ôl y gwrandawiad terfynol i ymgorffori'r penderfyniad. | GCP a GCM i sicrhau bod y cynllun cymorth wedi ei adolygu cyn gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu. |
| **AR ÔL Y GM**<br>**13** | GCM / tîm cymorth / VAASW – cymorth lle bo'n briodol ac asesu ac adolygu ar gyfer anghenion cymorth mabwysiadu mewn perthynas â chysylltiad. | Ddim yn berthnasol | GCM / rhanbarth – cychwyn neu parhau cymorth gyda chysylltiad<br>GCM / rhanbarth – cymorth cyffredinol i'r RhB.<br>GCM – cyfathrebu parhaus a chyfnewid gwybodaeth. | GCM / cymorth rhanbarthol lle bo'n berthnasol.<br>Cynllun cymorth ar ôl mabwysiadu i nodi beth sydd i'w ddarparu i'r plentyn ac i'r teulu a chytundeb ar gyfer adolygu neu 'gadw mewn cysylltiad' |

Drwy'r canllaw, mae cyfeiriad at wahanol fathau o gymorth a all fod ar gael i blentyn wedi ei fabwysiadu a'u teulu.

1) **Gwasanaethau cynhwysol** sydd ar gael i unrhyw blentyn yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau iechyd, addysg a darpariaeth feithrin. Maent ar gael i blentyn wedi ei fabwysiadu, fel unrhyw blentyn arall; efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn amlach o ganlyniad i'w profiadau cynnar.

2) **Gwasanaethau cymorth mabwysiadu** a ddarperir drwy Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer asesiad o anghenion cymorth mabwysiadu ac yn nodi rhestr benodol o'r hyn y mae cymorth mabwysiadu yn ei olygu.

## Y MATHAU O WASANAETHAU CYMORTH MABWYSIADU SYDD AR GAEL

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o bell ffordd a dylai asesiad cymorth mabwysiadu a arweinir gan anghenion (gweler Atodiad 3) sefydlu angen a cheisio ei ddiwallu yn hytrach nag edrych ar y rhestr. Serch hynny, gall fod yn ddefnyddiol i'r sawl sy'n llai cyfarwydd gyda chymorth mabwysiadu i wybod am rai o'r gwasanaethau a ddefnyddir amlaf.

### Gwasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysol

> ***"Darparu cymorth cymaint o ffyrdd ag y bo modd – nid yn unig y rhai mwyaf hawdd / fwyaf amlwg. Cyfeillion, hyfforddiant arlein ac ati. Nid yw pawb eisiau mynd i, neu'n gallu mynd i grŵp cymorth neu hyfforddiant."***
>
> Rhiant sy'n mabwysiadu

- Darparu asesiad cymorth mabwysiadu
- Trosolwg ac adolygu Cynllun Cymorth Mabwysiadu
- Mynediad at gyngor a gwybodaeth arbenigol ar fabwysiadu
- Mynediad at wasanaethau iechyd prif ffrwd 'sy'n ymwybodol o fabwysiadu'
- Mynediad at y cymorth gydag addysg ac, yn benodol, sicrhau bod gan ysgolion ganllaw ysgolion AUK 'Getting it Right for Every Child' schools'
- Cymorth gyda chysylltiad (ysgrifennu llythyrau / cysylltiad o bell / cysylltiad uniongyrchol, yn arbennig gyda brodyr a chwiorydd)
- Mynediad i'r grŵp 'Cysylltiedig' ar gyfer plant a phobl ifanc dros 7 oed
- Cyfathrebu gydag ebost / cylchlythyrau fel ffordd o gadw mewn cysylltiad
- Cytundeb i 'gadw mewn cysylltiad' ar adegau datblygiad allweddol, er enghraifft adeg pontio
- Darparu hyfforddiant / gweithdai i gynnwys gwahanol gyfnodau datblygu, gan gynnwys mynediad at hyfforddiant arlein / o bell
- Darparu hyfforddiant ar faterion a allai effeithio teuluoedd sy'n mabwysiadu (e.e. Anhwylderau Syndrom Alcohol Ffetws (ASAFf), trais plentyn tuag at rieni)
- Mynediad at grwpiau cymorth (grwpiau cymorth sy'n cynnig elfen o hyfforddiant gyda siaradwyr ar bynciau penodol, ond sydd hefyd yn rhoi amser i gymdeithasu a dal i fyny), grwpiau penodol ar gyfer mabwysiadwyr sengl, tadau, cyplau o'r un rhyw, teidiau a neiniau
- Dyddiau hwyl i'r teulu
- Cymorth cymheiriaid (anffurfiol a ffurfiol)
- Mentora gan gymheiriaid / cyfeillio (anffurfiol a ffurfiol)
- Hyfforddiant ar ôl mabwysiadu sy'n targedu cyfnodau penodol o ddatblygiad y plentyn, gan atgyfnerthu'r cysyniad o 'gyfathrebu agored'
- Aelodaeth o AUK
- Cymorth a hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol, ar gyfer cyfnodau datblygu penodol y plentyn
- 'Mil diwrnod cyntaf' AUK yn rhoi hyfforddiant annibynnol a chymorth cymheiriaid, yn uniongyrchol ac arlein

### Gwasanaethau cymorth a dargedwyd

Mae rhai teuluoedd angen cymorth ychwanegol, a ddylai gael ei arwain gan anghenion ar ôl asesiad. Gall hyn gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i:

- Mynediad at wasanaethau iechyd (yn arbennig gwasanaethau arbenigol megis therapi galwedigaethol pediatrig, awdioleg, offthalmoleg). Gall ychwanegu pwysau gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu i gyfeiriadau drwy'r meddyg teulu helpu
- Addysg – ymweld â'r ysgol / siarad â staff i helpu i ddarparu dull sy'n ymwybodol o drawma o ran amser y plentyn yn yr ysgol / Cynorthwyo i gael y math iawn o help
- Mynediad at wasanaethau seicoleg (drwy drefniadau'r rhanbarth ei hun / cytundeb)
- Mwy o hyfforddiant arbenigol, er enghraifft, crybwyll gwybodaeth anodd, effeithiau ASAFf
- Hyfforddiant penodol i rieni plant hŷn, er enghraifft ar gwrthsafiad anhreisgar (GA)
- Cymorth ariannol (nid lwfansau) ar gyfer teuluoedd penodol (e.e. help domestig gyda grwpiau sibling mawr)
- Gofal seibiant / egwyl fer (rhywbeth nad yw wedi ei dderbyn yn hanesyddol fel gwasanaeth cymorth mabwysiadu ond y dylid ei ystyried fel rhan o becyn cymorth dan amgylchiadau penodol). Nid yw gofal egwyl fer o reidrwydd yn golygu aros dros nos, ond gall roddi peth amser yn ystod y dydd i rieni sy'n mabwysiadu a hwyl i'r plentyn
- TESSA (ar ôl asesiad – gweler isod)

### Gwasanaethau cymorth arbenigol

Asesiad aml-ddisgyblaeth o angen yn cynnwys GCP, os dyrennir un, y GCM, gwasanaethau iechyd, addysg a seicoleg (o adnoddau'r rhanbarth ei hunan neu o ganlyniad i gyfeiriad i CAMHS drwy feddyg teulu'r plentyn)

Gallai gwasanaethau a adnabyddir o'r asesiad hwn gynnwys

- Gwaith stori bywyd therapiwtig
- Cymorth therapiwtig cofleidiol e.e. Lle'r Teulu
- Therapi chwarae
- Therapi cerddoriaeth/celfyddyd/drama/ceffylau
- Cymorth arbenigol i rieni sy'n mabwysiadu (gweler AUK)

Mae manylion yr asesiad cymorth mabwysiadu a'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu i'w gweld dan 4.13 ac yn Atodiad 4 a 5.

3) Gwasanaethau sydd ar gael drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Darperir y gwasanaethau hyn, neu eu cyfryngu, neu roddi taliadau uniongyrchol tuag atynt, gan awdurdod lleol y plentyn ar ôl asesiad Rhan 3 o angen. Dan yr amgylchiadau hyn, er enghraifft lle mae gan y plentyn gynllun presennol ar gyfer gofal egwyl fer oherwydd lefel eu hanabledd, yna bydd ganddynt eu cynllun gofal a chymorth Rhan 4 eu hunain, ynghyd â Chynllun Cymorth Mabwysiadu.

Nid yw'r canllaw yn ystyried lwfansau ariannol. Daw'r rhan dan Bolisi a Gweithdrefn Lwfansau Ariannol Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu y GMC, 2017.

Mae pob adran yn y canllaw yn nodi:

1) **Y fframwaith cyfreithiol**, lle'n berthnasol, gydag unrhyw statud perthnasol mewn coch, rheoliadau mewn glas a chyfraith achos ac egwyddorion cyfreithiol cyffredinol mewn gwyrdd.

2) **Yr hyn sydd angen iddo ddigwydd** i gyflawni arferion da a'r hyn sydd angen ei wneud gan weithiwr cymdeithasol y plentyn a/neu'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu.



# Achosion Gofal

# 4.1

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Bydd yr AMP/B (Adroddiad Mabwysiadu'r Plentyn / Adroddiad Anecs B) yn adnabod anghenion hirdymor unigol y plentyn ar gyfer cymorth. Bydd hyn yn hysbysu'r penderfynwr yn yr asiantaeth os dylid cymryd penderfyniad 'dylid mabwysiadu' ac, yn ei dro, hysbysu penderfyniad y llys o ran a ddylid gwneud Gorchymyn Gofal, gyda chynllun ar gyfer mabwysiadu.

Mae'n hynod debygol, cyn y bydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, y byddant wedi cael cynllun gofal a chymorth Rhan 4, a oedd yn nodi'r cymorth sydd i'w ddarparu i'r plentyn a'r teulu, ynghyd a chynllun amddiffyn plentyn. Unwaith y bydd y plentyn yn un sy'n derbyn gofal, bydd hyn yn newid yn gynllun gofal a chymorth Rhan 6, a fydd yn aros yn ei le nes gwneir Gorchymyn Mabwysiadu. Gall elfennau o gynllun gofal a chymorth Rhan 6 fwydo gwybodaeth i'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu embryonig.

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

### Cyfrifoldeb Gwasanaeth

- Bydd y GCP yn derbyn hyfforddiant ar effaith trawma datblygiadol a'r effaith a all gael ar batrymau ymlyniad y plentyn. Mae hyn yn hollbwysig o ran adnabod yr angen am wasanaethau cymorth
- Bydd y GCP yn derbyn hyfforddiant ar ysgrifennu Cynlluniau Cymorth Mabwysiadu sy'n cynnwys y Gwaith Taith Bywyd a'r cymorth ar gyfer cysylltiad y bydd ei angen os yw brodyr a chwiorydd i gael eu lleoli ar wahân.

### Gwaith achos

- Bydd y GCP yn sicrhau bod yr holl adroddiadau a ysgrifennir mewn perthynas â'r plentyn yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gryno ac yn ddadansoddol
- Bydd y GCP yn gweithio ar y cyd ag aelodau'r teulu biolegol a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod gwybodaeth Gwaith Taith Bywyd (GTB) a deunyddiau yn dod ar gyfer y plentyn.

Cyfeiriwch at GTB y **GMC** a **Chanllawiau Arferion Da Gweithio gyda Rhieni Biolegol.**

**Gweler Atodiad 3** ar gyfer Mesurau Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â gwaith Taith Bywyd.

### Gweithio gyda rhieni biolegol

- Mae angen cynorthwyo rhieni biolegol y plentyn drwy gydol y broses, gan gynnwys eu cyfraniad i waith taith bywyd.

Cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Gweithio gyda Rhieni Biolegol.**

### Rhannu gwybodaeth a chymorth

- Mae timau mabwysiadu rhanbarthol ar gael ar gyfer cyngor a chymorth ar gynllunio mabwysiadu gan gynnwys cyn, neu yng nghyfnodau cynnar, achosion gofal. Tra cydnabyddir bod gan bob rhanbarth ei brotocol ei hun ar gyfer derbyn atgyfeiriadau, mae'r egwyddor gyffredinol hon yn sefyll.
- Pan fydd cynllunio aml-drac yn cynnwys y cynllun ar gyfer mabwysiadu, mae angen cysylltiad rhagweithiol rhwng y GCP a'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol cyn gynted ag y bo modd.

> ***'Mewn cymorth mabwysiadu, mae gennym bersbectif hirach ar anghenion plentyn'***
>
> Uwch ymarferwr mewn tîm cymorth mabwysiadu






# Trefniadau Lleoli

# 4.2

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Bydd elfen Anecs B y ffurflen AMP/B yn delio ag anghenion cymorth hirdymor y plentyn, cyn belled ag y gellir eu hadnabod bryd hynny, ac yn bwydo gwybodaeth i benderfyniad y llys o ran y cais am orchymyn lleoli.

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

***"Mae gan AMP/B lawer mwy o werth pan fydd, yn ychwanegol at ddarparu gwybodaeth fanwl, yn ystyried 'beth mae hyn yn ei olygu i'r plentyn'. Mae hyn yn ddarlun gwirioneddol o'r plentyn ac yn helpu mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol i wneud synnwyr o brofiad bywyd y plentyn ac effaith debygol hyn ar ddatblygiad."***

Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu

Mae AMP/B o ansawdd gwael wedi eu nodi fel ffactor allweddol pan fydd lleoliad mabwysiadu yn chwalu, a elwir yn amhariadau. Mae gwybodaeth goll yn arwain at baru gwael, teuluoedd heb eu paratoi yn dda a phlant nad ydynt yn cael y cymorth digonol (Dance a Farmer (2015) a Selwyn (2014).



**Gwaith achos**

- Bydd y rheolwr tîm ar gyfer y GCP yn cyfeirio at y tîm mabwysiadu i gael cyfaill i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd mewn perthynas â'r AMP/B a'r broses fabwysiadu lle nad oes gan GCP brofiad blaenorol o gynllunio ar gyfer a symud plentyn i leoliad mabwysiadu. Bydd y cyfaill yn rhoi cyfarwyddyd ond ni fydd yn ysgrifennu'r AMP/B.
- Yn yr AMP/B bydd y GCP yn adnabod y nodweddion sydd eu hangen gan ddarpar rieni mabwysiadu i ddiwallu anghenion y plentyn hwn. Caiff hyn ei fanylu ac yn seiliedig ar arsylwadau proffesiynol, cysylltiad gyda gofalwyr maeth y plentyn ac oedolion eraill sy'n adnabod y plentyn yn dda.

***"Mae'r wybodaeth a gewch o'r cyfnod cynnar hwnnw – a gynhwysir yn yr AMP/B, mor bwysig i chi fel rhiant sy'n mabwysiadu, gan y gallwch ddechrau gweld sut beth yw bywyd a'r cymorth y gallech fod ei angen. Mae'n golygu rhoi eich hunan yn esgidiau'r plentyn. Rwyf wedi canfod bod mynd yn ôl i'r wybodaeth gynnar honno yn ddefnyddiol iawn dros y blynyddoedd, er mwyn mynd yn ôl i'r sefyllfa honno o ddealltwriaeth ... Roedd hefyd yn helpu o ran adnabod pa gymorth roeddem ei angen yn gynnar iawn yn y broses."***

Rhiant sy'n mabwysiadu

# Canfod Teulu

# 4.3

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Dylid diweddaru'r AMP/B yn rheolaidd er mwyn darparu pecyn paru cywir a rhagfynegyddion o anghenion cymorth.

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

### Gwaith achos

- Bydd y GCP yn diweddaru'r AMP/B yn rheolaidd er mwyn iddo adlewyrchu anghenion presennol y plentyn a chynnwys yr holl wybodaeth arwyddocaol.
- Bydd y GCM sy'n ymgymryd â gwaith pontio yn paratoi llinell amser trawma/anogaeth, gan ddefnyddio gwybodaeth yn AMP/B y plentyn, adroddiadau gofalwyr, adroddiadau llys sydd ar gael ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd ar gael.

Cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC i gael manylion ar y llinell amser anogaeth/trawma a'r model o bontio sydd ei angen i gynorthwyo gyda'r plentyn yn symud i leoliad mabwysiadu. Mae'r gwaith hwn yn amhrisiadwy o ran helpu pawb dan sylw yn y broses baru, gan gynnwys y darpar fabwysiadwyr, i ddeall yr hyn mae'r plentyn wedi ei brofi, a'r anghenion cymorth posibl sy'n deillio o'r profiadau hynny.

### Cymorth i ddarpar fabwysiadwyr

Mae cael darpar fabwysiadwyr yn y gymuned cymorth mabwysiadu a gwasanaeth cymorth mabwysiadu cynhwysol cyn paru yn helpu gyda'r aros am gysylltiad (os oes un) ac yn sefydlu patrwm sy'n haws ei barhau unwaith y lleolir y plentyn. Mae hefyd yn rhoi cyfle cynnar o ran cael cymorth cymheiriaid

> ***'Gwnewch yn siŵr eich bod yn esbonio'n union beth sydd ar gael'***
>
> Rhiant sy'n mabwysiadu

- Bydd y GCM yn sicrhau bod darpar fabwysiadwyr yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysol megis:
- Cylchlythyrau (o'r rhanbarth / VAA / AUK)
- Cyfeillion mabwysiadu (mabwysiadwyr profiadol a ddewisir i adlewyrchu proffil y darpar fabwysiadwyr). Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer darpar fabwysiadwyr sengl
- Grwpiau cymorth, a ddarperir gan y rhanbarthau (er enghraifft grwpiau cymorth cymheiriaid megis grwpiau babanod, grwpiau oedolion, grwpiau tadau, grwpiau mabwysiadwyr sengl)
- Ni ddylid minimeiddio pwysigrwydd y ddarpariaeth / hwyluso cymorth cymheiriaid, hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn.
- Aelodaeth o AUK a chymorth arall.

> ***'Rydym yn rhan o grŵp cymorth lleol – mae'n amhrisiadwy o ran gallu trafod syniadau.'***
>
> Rhiant sy'n mabwysiadu

# Cysylltu

# 4.4

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Bydd yr Adroddiad Darpar Fabwysiadwr (ADF) wedi adnabod unrhyw anghenion cymorth penodol a fydd gan y darpar fabwysiadwr efallai (wedi eu tanlinellu gan unrhyw 'heriau' y bydd y panel asiantaeth wedi eu nodi yn eu cyngor cyffredinol i'r ADM)

**Lleoliad arfaethedig**

Rheoliad 32(1) AA(W)R 2005: Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel "y lleoliad arfaethedig") rhaid i'r asiantaeth –

(c) canfod barn y darpar fabwysiadydd am –

(ii) anghenion asesedig y plentyn ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu a'r cynllun cymorth mabwysiadu.

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

**Gweithio gyda darpar fabwysiadwyr a gofalwyr maeth**

- Mae'r GCP yn rhoi i ddarpar fabwysiadwyr yr holl wybodaeth ar y plentyn ac yn gosod yr wybodaeth honno yng nghyd-destun anghenion tebygol yn y dyfodol

**Cyfrifoldeb y gwasanaeth**

- Bydd y gwasanaeth rhanbarthol neu'r asiantaeth fabwysiadu wirfoddol (AFW) yn sicrhau, drwy hyfforddi a pharatoi darpar fabwysiadwyr, eu bod yn ymwybodol o'r effaith bosibl y gall 'iselder' ar ôl mabwysiadu, trawma eilaidd a gofal wedi'i flocio eu cael arnynt. Mae angen i rieni sy'n mabwysiadu glywed y neges bod eu lles eu hunain yn bwysig i'r plentyn a gwybod y bydd y gweithwyr proffesiynol yn deall yr effaith y gall bod yn riant i blentyn sydd wedi dioddef trawma datblygiadol ei chael.

**Gwaith cydweithredol rhanbarthol**

- Mae'r cyfarfod 'Deall y Plentyn' yn rhan sylfaenol o'r broses bontio (cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC). Mae'r cyfarfod hwn yn rhoi cyfle i bawb dan sylw (gan gynnwys mewnbwn gan y tîm / gweithiwr cymorth mabwysiadu) gael dadansoddiad realistig o anghenion y plentyn ac anghenion cyfun y plentyn hwn gyda'r darpar fabwysiadwyr hyn. Mae'n rhoi'r holl wybodaeth ar y plentyn i'r darpar fabwysiadwyr, yng nghyd-destun anghenion yn y dyfodol
- Gall y cyfarfod Deall y Plentyn leihau gor-optimistiaeth, ar ran gweithwyr proffesiynol a darpar fabwysiadwyr fel ei gilydd, mewn perthynas â pharu posibl. Bydd yn herio'r GCP a'r GCM wrth adnabod y cymorth angenrheidiol a hefyd herio'r darpar fabwysiadwyr o ran deall y cymorth sy'n debygol o fod ei angen
- Mae cofnod ysgrifenedig da o'r cyfarfod Deall y Plentyn yn amhrisiadwy, yn y presennol i ddibenion paru ond hefyd i'w ddefnyddio yn y dyfodol ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu a'r gwasanaethau cymorth sy'n chwarae rhan yn y dyfodol (er enghraifft TESSA). Mae'n cydnabod effeithiau, weithiau yn rhai hirdymor, o drawma datblygiadol ar y plentyn
- Bydd y GCM yn sicrhau bod y darpar fabwysiadwyr yn cael hyfforddiant a/neu drafodaethau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg yn eu gwybodaeth mewn perthynas â'r plentyn/plant penodol y maent yn cael eu hystyried ar eu cyfer. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ar ddatblygiad plentyn ar gyfer yr oedran hwnnw a gall gynnwys cyfeirio ac arfer tasgau rhianta sylfaenol (megis newid cewynnau)

**Dull aml-asiantaeth**

- Bydd darparwyr gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n chwarae rhan mewn trefniadau pontio yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir am y plentyn ar gyfer cynllun cymorth mabwysiadu, a'u rôl cyn, yn ystod ac ar ôl i'r plentyn symud.

Cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC

- Dylid dilyn cyfarfod cynghorwyr meddygol gyda mabwysiadwyr gyda llythyr / adroddiad yn amlinellu anghenion cymorth presennol ac anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol yn unol ag unrhyw anghenion iechyd corfforol neu emosiynol sydd wedi cael diagnosis.

# Cynllunio Paru

# 4.5

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

**Lleoliad arfaethedig**

Rheoliad 32(3) AA(W)R 2995: Os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y dylai'r lleoliad arfaethedig fynd rhagddo, rhaid i'r asiantaeth –

(ch) paratoi adroddiad ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys –

(iii) os yw'r asiantaeth yn awdurdod lleol, ei gynigion ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, os o gwbl, yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005. Gweler isod am fanylion

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

**Gweithio gyda darpar fabwysiadwyr**

- Bydd y GCM a'r gweithiwr pontio (os yn bobl wahanol) yn cyfarfod gyda'r darpar fabwysiadwyr i drafod ymhellach anghenion cymorth y plentyn. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth bellach o anghenion penodol y plentyn ar ôl y cyfarfod 'Deall y Plentyn', gan roi enghreifftiau concrid, rhannu fideos arlein a deunydd arall i wirioneddol helpu darpar fabwysiadwyr i ystyried anghenion cymorth y plentyn yn y dyfodol.
- Bydd yr anghenion cymorth penodol, mewn perthynas â chyfansoddiad aelwyd y darpar fabwysiadwyr, yn cael eu hystyried. Er enghraifft, lle mae darpar fabwysiadwyr yn byw ar eu pennau eu hunain, bydd fel rheol yn briodol iddyn nhw gynnwys cyfaill agos neu aelod o'r teulu yn y cynllun cyflwyniadau.
- Os oes gan ddarpar fabwysiadwyr blant eisoes, byddant yn cael eu cefnogi gan y GCM sy'n ymgymryd â gwaith pontio i ddechrau eu paratoi ar gyfer eu sibling newydd ac adlewyrchu ar yr anghenion cymorth hirdymor ar gyfer y plentyn.

**Gwaith achos**

- Bydd yr Adroddiad Lleoliad Mabwysiadu (ALlM) a'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu arfaethedig (CCM), nawr yn ddogfennau cwbl ar wahân, yn cael eu rhannu gyda'r darpar fabwysiadwyr, gan ganiatáu 10 diwrnod gwaith iddynt ystyried a gwneud sylwadau.
- Bydd y Cynllun Cymorth Mabwysiadu hwn yn adnabod:

1) Yr anghenion ar gyfer rhan gyntaf y daith i leoliad
2) Strwythur cadarn ar gyfer pennu pryd y bydd yr adolygiad nesaf yn digwydd (yn y cam cyflwyniadau neu'n fuan ar ôl lleoli) ac yn y camau wedi hynny (gweler isod)
3) Beth yw'r anghenion hirdymor posibl. Nid yw'n fwriad yma i bennu gwasanaeth cymorth penodol at y dyfodol, ond amlygu'r angen posibl, neu hyd yn oed debygol, yn y dyfodol. Mae amserau heriol yn aml yn dod mewn cyfnodau pontio (er enghraifft o'r feithrinfa i'r ysgol gynradd ac o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a dechrau Blwyddyn 10). Gellir nodi'r rhain yn y Cynllun Cymorth Mabwysiadu fel cyfnodau posibl lle bydd angen help, gan ategu'r neges glir i ddarpar fabwysiadwyr bod cymorth ar gael yn y tymor hirach, pan fyddant ei angen.
**Gweler Atodiad 5.**



# Panel/Penderfynwr yr Asiantaeth (PA) Paru

# 4.6

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

**Cyfrifoldeb y gwasanaeth**

- Bydd y Panel Mabwysiadu yn cael hyfforddiant ar anghenion cymorth mabwysiadu a phwysigrwydd cynllun cymorth cadarn sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion presennol ac anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol
- Bydd y Panel Mabwysiadu a Phenderfynwr yr Asiantaeth (PA) yn ystyried y CCM ynghyd ag ystyriaethau paru
- Bydd y PA yn sicrhau bod awdurdod lleol y plentyn yn gwbl ymwybodol o argymhelliad y panel a chymeradwyaeth y PA o'r cynllun cymorth hwnnw

**Gwaith achos**

- Mae angen i'r cynllun cymorth mabwysiadu (wedi ei adolygu a'i ddiweddaru os oes angen) gael ei gadarnhau gan awdurdod lleol y plentyn. Rôl y GCP yw sicrhau bod cyllid yn cael ei gytuno ar gyfer darpariaeth a dargedwyd neu ddarpariaeth arbenigol os caiff hynny ei adnabod yn y cyfnod hwn.

**Rôl y Cynghorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (CGCM)**

- Unwaith y bydd y PA wedi cymeradwyo paru gyda darpar fabwysiadwyr sy'n byw y tu allan i'r rhanbarth mabwysiadu, anfonir hysbysiad ysgrifenedig o'r lleoliad at y CGCM yn y gwasanaeth mabwysiadu lle mae'r darpar fabwysiadwyr yn byw, yn eu hysbysu o ddyddiad a ragwelir ar gyfer lleoli. Bydd y cynllun cymorth ar gyfer y plentyn hefyd yn cael ei anfon. Dyma lle bydd yn arbennig o ddefnyddiol os gellir rhagweld anghenion penodol y teulu hwn yn ystod plentyndod y plentyn wedi eu nodi yn y cynllun.
- Os yw plant yn cael eu lleoli beth pellter o'r awdurdod lleoli, gan wneud darparu gwasanaethau yn anodd i'r awdurdod lleoli, bydd angen trefnu gwasanaethau cymorth gyda'r ddau CGCM perthnasol. Bydd hyn yn gofyn am drafodaeth o ran y gwasanaethau y gellir eu cynnig a'r costau a achosir. Mae'r awdurdod lleoli yn gyfrifol am gymorth ar ôl mabwysiadu am y tair blynedd gyntaf ar ôl gwneud Gorchymyn Mabwysiadu, ac wedyn mae'n trosglwyddo i'r awdurdod derbyn / awdurdod preswyl.
- Gweler adran 4.13 i gael rhagor o fanylion am bwy sydd â chyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

# Cyflwyno Cyflwyniadau

# 4.7

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

**Gwaith achos**

- Bydd y GCP a'r GCM yn cwblhau Cynllun Lleoliad Mabwysiadu (CLlM). Cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC.

**Dull aml-asiantaeth**

- Dylai'r GCP a'r GCM sy'n ymgymryd â chanfod teulu gynnwys iechyd ac addysg yn y gwaith cynllunio lle bo'n briodol

# 4.8 Cyflwyniadau

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

- Mae angen i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu sy'n mabwysiadu yn y cyfnod hwn fod yn ofalus gyda'u hagwedd tuag at gyflwyniadau a sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth debyg o anghenion y plentyn. Bydd angen i'r GCM, sy'n adnabod y darpar fabwysiadwyr yn dda, arwain gyda dull sy'n deall trawma, gyda'r GCP yn darparu'r wybodaeth fanwl a gwybodaeth ar gefndir ac anghenion y plentyn
- Mae'n bosibl y bydd anghenion cymorth ychwanegol yn dod i'r golwg yn ystod y broses bontio. Gall y rhain fod yn rhai byrdymor, ond os ydynt yn rhai hirdymor mae angen eu cydnabod a delio gyda nhw mewn cynllun cymorth mabwysiadu diwygiedig. Mae'r GCP a'r GCM yn gyfrifol am asesu ac ymateb i unrhyw angen am gymorth a adnabuwyd. Yn y cam hwn bydd y GCP yn gofyn am gytundebau ar gymorth ychwanegol fel y bo'n briodol.

***"Yn y dyddiau cynnar, gall dod i adnabod y plentyn hwn fod yn llethol i rieni sy'n mabwysiadu. Gall pethau bach ddod yn bethau mawr yn gyflym iawn. Mae rhoi cefnogaeth a sicrwydd yn rhan fawr o rôl y GCM (a'r GCP lle maent yn chwarae rhan)."***

Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu

***"Mae symud o ddull sy'n canolbwyntio ar dasgau i un sy'n fwy seiliedig ar PACE a DDP wir yn helpu mabwysiadwyr. Rydych yn eu helpu i ddeall y plentyn, yn hytrach na phennu strategaethau penodol: 'Tybed pam y mae'n gwneud hyn' yn hytrach na 'Ydych chi wedi rhoi cynnar ar x?'"***

Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu

# 4.9 Lleoli

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

**Cymorth a chyngor ar gyfer y teulu sy'n mabwysiadu**

***'Gwnewch yn siŵr bod rhieni sy'n mabwysiadu yn gwybod nad yw cymorth yn dod i ben yn union ar ôl i'r plentyn ddod i fyw gyda nhw – i mi, mae'n dda gwybod y gallaf godi'r ffôn – unrhyw adeg'***

Rhiant sy'n mabwysiadu

***Adoption is life changing for prospective adopters and can bring about its own stresses in the early days, weeks and months. Challenges such as difficulties in bonding and unrealistic expectations of family life can be a test to mental health***

Moyer and Goldberg, 2017

- Bydd anghenion cymorth newydd yn cael eu hadnabod gan y darpar fabwysiadwyr, GCM, gweithiwr pontio os yn berson gwahanol a'r GCP. Bydd y GCP a'r GCM yn adolygu a diwygio'r cynllun cymorth os oes angen. Bydd y GCM yn rhoi sicrwydd y bydd yn cymryd amser i'r plentyn ddatblygu ymlyniad gyda'r rhieni newydd. Bydd help a chymorth gan y GCM sy'n gwneud gwaith pontio, sydd â'r sgiliau i ddatblygu strategaethau i ddechrau creu'r symudiadau cynnar hynny tuag at ymlyniad, ar gael yn y cyfnod cynnar hwn. **Cyfeiriwch at Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC.
- Mewn adolygiadau, bydd y GCM, GCP a'r SAA yn rhoi i ddarpar fabwysiadwyr y cyfle i siarad am effaith trallod y plentyn ar fywyd teuluol. Gwneir hyn mewn modd sy'n derbyn y ffaith eu bod yn ymgymryd â thasg rhianta gymhleth a bod yr holl weithwyr proffesiynol dan sylw yn rhagweld y bydd hwn yn gyfnod anodd.

# Wythnosau / Misoedd Cynnar

# 4.10

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

**Adolygiadau**

Rheoliad 37(7) Fel rhan o bob adolygiad rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried —

(e) y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylid gwneud ailasesiad o'r angen am y gwasanaethau hynny;

**Swyddogion adolygu annibynnol**

Rheoliad 38(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol o —

(a) (a) unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud neu weithredu trefniadau yn unol ag adolygiad; (bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth).

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

***"Ni all y cynllun cymorth gorau ddelio mewn gwirionedd â sut bydd mabwysiadwyr yn ymateb i realiti y dyddiau cynnar. Mae'n hollbwysig bod y cynllun yn ymatebol, deinamig a hyblyg"***

Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu

**Cymorth a chyngor i'r teulu sy'n mabwysiadu**

- Bydd y CGM yn sicrhau bod yr holl wasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysol ar gael yn yr wythnosau a'r misoedd cynnar, er gyda rhai mabwysiadwyr bydd yn rhy gynnar i ymgymryd â rhai o'r gweithgareddau

***'Cawsom nifer fawr iawn yn ymgymryd â hyfforddiant arlein a chymorth gan deuluoedd yn ystod Covid, gan gynnwys rhai nad oedd wedi bod mewn cysylltiad am beth amser. Mae darparu gwasanaethau arlein wirioneddol wedi helpu pobl i gysylltu.'***

Gweithiwr cymdeithasol cymorth mabwysiadu rhanbarthol

- Yn benodol, bydd y gallu i gael cymorth gan gymheiriaid a grwpiau o bell yn galluogi i deuluoedd newydd eu creu gymryd rhan heb yr angen i adael y cartref
- Bydd y GCM yn cynorthwyo darpar fabwysiadwyr, pan fyddant yn barod, i ddefnyddio modiwlau hyfforddiant ar ôl mabwysiadu y GMC, er mwyn cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- Sicrhau bod y teulu yn gwybod am Connect, y gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc wedi eu mabwysiadu a arweinir gan AUK ar y cyd â'r gwasanaeth cymorth mabwysiadu rhanbarthol. Mae grwpiau ar gael ledled y rhanbarthau ar gyfer plant 7 oed a throsodd. Gellir gwneud atgyfeiriadau yn uniongyrchol gan y teulu neu drwy'r GCM / gweithiwr cymorth y plentyn neu'r person ifanc

Darganfu Astudiaeth Mabwysiadu Cymru, a edrychodd yn benodol ar brofiadau teuluoedd mabwysiadol newydd eu ffurfio, yn 2017:

***"…. the urgent need for better consideration of the early support needed by, and provided to, newly formed adoptive families, to help ensure that they start out own a firm footing, and to give them every chance to flourish."***

Meakings et al. (2017)

Nododd yr astudiaeth feysydd lle roedd angen cymorth ar gyfer teuluoedd newydd eu ffurfio, megis iechyd a datblygiad plant, gyda phlant hŷn yn delio gyda phryderon emosiynol ac ymddygiad, yn enwedig o ran deall pa ymddygiad sy'n nodweddiadol o drallod cynnar a beth yw ymddygiad 'nodweddiadol' plentyndod.

**Y rhwydwaith cymorth ehangach**

- Cydnabyddir bod angen i fabwysiadwyr sengl gael eu rhwydwaith cymorth agos yn llawer cynharach; efallai hefyd ei bod yn wir i rai mabwysiadwyr sy'n gyplau (er enghraifft gyda grwpiau sibling mawr neu blentyn ag anghenion ychwanegol). Rhaid i'r GCM a'r GCP hefyd gymryd i ystyriaeth anghenion y darpar fabwysiadwyr, er budd gorau'r plentyn/plant wrth gynghori ar arferion 'cadw pawb hyd braich' yn ystod wythnosau cyntaf y lleoliad
- Bydd y GCM yn trafod yn fanwl gyda'r darpar fabwysiadwyr sut y bydd plant yn cael eu cyflwyno i'r teulu ehangach, gydag efallai cyflwyniad gyda 'nain yn picio draw gyda chacen ac yna mynd gartref ar ôl dweud helo' yn hytrach nag ymweliadau maith, ffurfiol. Mae defnyddio cysylltiad o bell/digidol a llythyrau/cardiau hefyd yn ddefnyddiol, yn enwedig ar gyfer rhai sy'n byw peth bellter i ffwrdd

### Deall y plentyn

- Yn yr wythnosau a'r misoedd cynnar, bydd y GCM yn sicrhau bod gan ddarpar fabwysiadwyr ddealltwriaeth o lefel briodol datblygiad plentyn ar gyfer eu plentyn nhw a dealltwriaeth o sut all trawma fod wedi effeithio'r datblygiad hwnnw. Gellir gwneud hyn drwy gyfeirio yn ôl at ddeunyddiau paratoi mabwysiadu a thrafodaethau a phwyntio rhieni i gyfeiriad gwefannau perthnasol ac ati, ond yn bennaf drwy drafodaeth a rhoi sicrhad.
- Bydd y GCM yn sicrhau y bydd gan ddarpar fabwysiadwyr fynediad at gyngor ar amddiffyn a hyrwyddo'r berthynas sibling bresennol lle mae siblingiaid yn cael eu lleoli gyda'i gilydd a lle mae plant yn cael eu lleoli mewn teuluoedd gyda phlant.

> ***"Gallaf gofio mynd i gartref teulu biolegol lle'r oedd cymaint o oedolion, nid oeddwn yn gwybod pwy oedd Mam a phwy oedd Nain. Roedd pawb i'w gweld yn gweiddi ar y plentyn i wneud rhywbeth. Roedd yr ystafelloedd i gyd yn llofftydd. Roedd hyn wirioneddol yn effeithio gallu'r plentyn i ymdopi gyda llawer o bobl yn y cartref mabwysiadol"***
>
> gweithiwr cymdeithasol y plentyn

- Bydd y GCM a'r GCP yn gallu rhoi gwybodaeth i'r darpar fabwysiadwyr i'w helpu nhw i roi eu hunain yn esgidiau'r plentyn yn y cyfnod hwn – os daeth y plentyn o deulu biolegol anhrefnus gyda llawer o bobl yn y tŷ drwy'r amser, sut maent yn mynd i deimlo wrth gael nifer fawr o bobl ddieithr cyffrous yn y tŷ? Bydd y GCP gyda gwybodaeth uniongyrchol o'r teulu biolegol, yn gallu helpu'r darpar fabwysiadwyr i wneud penderfyniadau gyda'r plentyn mewn golwg; bydd hyn yn helpu gyda datblygu ymlyniad yn gynnar ar y ddwy ochr.
- Bydd rhieni sy'n mabwysiadu yn cael cymorth i gael yr help iawn i hwyluso iechyd a datblygiad cyffredinol y plentyn. Bydd ymweliadau ac adolygiadau yn cynnwys gwirio unrhyw bryderon sydd gan y darpar fabwysiadwyr mewn perthynas â hyn a chynllun ar gyfer unrhyw ymyrraeth angenrheidiol. Bydd yr SAA yn ymateb yn amserol i geisiadau am gymorth i sicrhau bod cymorth yn cael ei gytuno a bod y cynllun cymorth yn foddhaol.



### Lles y darpar fabwysiadwyr eu hunain

> ***Cafodd 60% o fabwysiadwyr yng Nghymru symptomau straen, pryder neu iselder ar ôl mabwysiadu, ac roedd 48% yn meddwl a oeddynt wedi gwneud y peth iawn ac a fyddent yn gallu ymdopi***
>
> Baromedr Mabwysiadu, Cymru, 2019

- Dylai fod cydnabyddiaeth, drwy hyfforddi a pharatoi darpar fabwysiadwyr, o effaith posibl 'iselder' ar ôl mabwysiadu, trawma eilaidd a gofal yn cael ei flocio yn deillio o effeithiau y gall plentyn gyda thrawma eu cael ar fabwysiadwyr. Bydd GCM yn gallu cyfeirio darpar fabwysiadwyr yn ôl at y trafodaethau hynny a helpu i ddarparu cyd-destun ar gyfer yr hyn all fod yn deimladau pryderus iawn. Dylai GCP a GCM hefyd wastad gofio am y posibilrwydd y bydd angen cymorth yn y tymor byr i helpu i oresgyn y teimladau llethol hyn o ***'beth ydyn ni wedi ei wneud i'n bywydau?'*** (Rhiant sy'n mabwysiadu)
- Ni ddylid tanamcangyfrif gwerth cymorth cymheiriaid i ddarpar fabwysiadwyr. Bydd y GCM yn sicrhau bod mynediad at gymorth cymheiriaid, yn ffurfiol drwy'r sefydliadau cydweithredol rhanbarthol neu drwy aelodaeth o AUK, neu'n fwy anffurfiol drwy annog pobl sy'n mynychu cyrsiau paratoi a hyfforddi i wneud cysylltiad â'i gilydd a grwpiau cymorth. Mae darparu cymorth cymheiriaid o bell yn rhoi cymorth i deuluoedd gyda lleoliad newydd na fyddent fel arall yn gallu ei gael

> ***'Gallwch siarad gyda mabwysiadwyr eraill yn hawdd – maent yn deall eich sefyllfa.'***
>
> Rhiant sy'n mabwysiadu

### SAA ac adolygiadau

- Dylai'r SAA fonitro ac adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn y cynllun cymorth a sicrhau eu bod y gwasanaeth diweddaraf ac yn diwallu anghenion presennol
- Bydd y GCM yn ymateb yn amserol i unrhyw argymhellion a wneir yn yr adolygiad

### Dull aml-asiantaeth

- Bydd y GCP yn gyfrifol am wahodd gweithwyr proffesiynol iechyd ac addysg i fynychu'r adolygiad mabwysiadu, os yw'n briodol.
- Bydd y GCP a'r GCM yn cysylltu gyda gweithwyr proffesiynol iechyd ac addysg i sicrhau bod anghenion cymorth y teulu yn cael eu diwallu.

Os yw plant yn arddangos ymddygiad treisgar a rheoli yn gynnar mewn lleoliad, mae Selwyn a Meakings (2016, t.18) yn honni bod y rhain

> ***"are unlikely to go away and social workers need to recognise the patterns and ensure there is early intervention".***

- Os yw plentyn yn arddangos ymddygiad o'r fath, bydd y Cynllun Cymorth Mabwysiadu yn cael ei adolygu ac fe ddarperir cymorth wedi ei dargedu.

# Penderfyniad i wneud cais am Orchymyn Mabwysiadu

**4.11**

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Gellir gwneud cais am Orchymyn Mabwysiadu ar ôl i'r plentyn gael ei leoli gyda'r darpar fabwysiadwyr am y deg wythnos cyn hynny (a42(2) ACA 2002)

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

***"It would … be appropriate for all adoption agencies to ensure that adoption support plans are not only reviewed prior to the adoption order being granted, but that they (prospective adopters) are actively involved in this process. However, the quality of the adoption support plan is crucial here and relies on the skills and expertise of the children's social worker and adoption social workers to be able to recognise the short and long-term developmental impact and needs of adopted children resulting from experiencing trauma and abuse / neglect."***

Ottaway et al. 2014, p.55

- Bydd y CGP yn parhau gydag ymweliadau statudol yn unol â gofynion rheoleiddiol ac yn unol ag anghenion y plentyn. Cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC
- Bydd y GCM yn parhau gydag ymweliadau cymorth / galwadau ffôn. Bydd y CGM yn parhau gydag ymweliadau cymorth / galwadau ffôn. Cyfeiriwch at **Ganllaw Arferion Da Pontio a Chymorth Cynnar** y GMC

***"Roeddem yn teimlo ein bod yn cael cefnogaeth dda gan ein gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr cymdeithasol ein plentyn. Roeddent yn helpu o ran dysgu sut i ail-rianta (ein plentyn)"***

Rhiant sy'n mabwysiadu

- Ystyrir pryd y dylid gwneud y cais am Orchymyn Mabwysiadu yn yr ail adolygiad (rheoliad 37(4)(b) AA(W)R) a ddylai ddigwydd cyn 16 wythnos o leoliad. Gan mai un o'r pynciau trafod yw darparu gwasanaethau cymorth, dylid ystyried y rhain o'r newydd yn yr adolygiad hwn a bod yr SAA yn fodlon bod unrhyw adolygiad gofynnol o'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu yn digwydd, ac yn tywys y teulu drwy'r Gorchymyn Mabwysiadu ac i'r cyfnod ar ôl Gorchymyn Mabwysiadu.
- Bydd yr SAA yn sicrhau bod y darpar fabwysiadwyr yn cytuno gyda'r cynllun cymorth. Os oes angen cymorth pellach ar gyfer darpar fabwysiadwyr er mwyn iddynt deimlo'n barod i wneud eu cais, dylai'r SAA ystyried cynnal trydydd cyfarfod adolygu mabwysiadu yn gynharach na'r cyfnod mwyaf rheoleiddiol o 6 mis
- Bydd y GCP a'r GCM yn diweddaru'r darpar fabwysiadwyr ar y gweithrediadau cyfreithiol yn amserol a chwblhau gwaith papur cysylltiedig â'r llys yn amserol
- Mae Anecs A yn rhoi gwybodaeth gyfredol ar les, anghenion a dymuniadau'r plentyn, gan fwydo gwybodaeth i'r cynllun cymorth. Caiff hwn ei ysgrifennu gan y GCP a'r GCM. Bydd y cynllun cymorth yn cael ei ddiweddaru gan y GCP yn unol ag unrhyw newidiadau a gynigiwyd yn yr adolygiad diwethaf. Bydd y darpar fabwysiadwyr a'r GCM yn cydnabod eu cytundeb gyda'r cynllun
- Dylid cynnwys yr angen am gymorth sy'n mynd y tu hwnt i gylch gorchwyl cymorth mabwysiadu mewn cynllun gofal a chymorth Rhan 4, gan adeiladu ar gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn. Bydd hyn yn gofyn am gysylltiad gydag awdurdod preswyl newydd y plentyn drwy'r CGCM os yw'n wahanol i'r awdurdod / rhanbarth lleoli
- Bydd cytundebau a ffioedd am wasanaethau a ragwelir a gwasanaethau parhaus yn cael eu cytuno gan ddarparwyr y gwasanaeth a'r awdurdod lleoli
- Bydd y Cynllun Cymorth Mabwysiadu ac Anecs A yn cael eu cytuno, a bydd ansawdd yn cael ei sicrhau gan reolwr y tîm mabwysiadu a rheolwr y tîm gofal plant

# Gweithrediadau Gorchymyn Mabwysiadu

**4.12**

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Adroddiad Anecs D (Cyfeiriad Practis 14C, Rheolau Gweithdrefn Deuluol 2010) yw'r adroddiad a wneir i'r llys lle bu cais am Orchymyn Mabwysiadu. Bydd yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei dysgu o'r cyfnod pontio ynglŷn ag anghenion cymorth y plentyn a'r teulu.

Adran D: Y Lleoliad: (c) Lle mae'r lleoliad yn cael ei ddarparu gyda chymorth mabwysiadu, dylid crynhoi hyn a dylai gynnwys y cynllun a'r amserlenni ar gyfer parhau gyda chymorth y tu hwnt i wneud y Gorchymyn Mabwysiadu.

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

- Bydd y GCP a'r GCM yn sicrhau bod y cynllun cymorth ar gyfer y plentyn wedi ei adolygu a bod unrhyw anghenion cymorth wedi eu trin cyn gwneir y Gorchymyn Mabwysiadu
- Dylid rhoi ystyriaeth i'r cymorth (gan gynnwys cymorth cyfreithiol) a roddir i ddarpar fabwysiadwyr os yw rhieni yn gwneud cais llwyddiannus i wrthwynebu gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu
- Bydd dyddiad adolygu yn cael ei bennu ar gyfer blwyddyn ar ôl i'r cymorth mabwysiadu ddod i ben neu wneud y Gorchymyn Mabwysiadu, pa un bynnag sy'n dod gyntaf

Gweler **Atodiad 5** am fanylion y cynllun cymorth ei hun.





# Ar ôl Gorchymyn Mabwysiadu

**4.13**

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Unwaith y gwneir Gorchymyn Mabwysiadu, mae fframwaith rheoleiddio newydd yn cael ei gyflwyno:

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005, ar gyfer awdurdodau lleol**

**Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019, ar gyfer AFW ac ASA**

Nid yw'r rheoliadau hyn yn cael eu dyfynnu yma. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau awdurdodau lleol yn nodi, ymhlith pethau eraill, y canlynol:

- Y rhestr o wasanaethau cymorth mabwysiadu penodedig (rheoliad 3(6) ASS(W)R 2005)
- Y bobl ar gyfer y rhain y dylid sefydlu gwasanaethau cymorth mabwysiadu (rheoliad 4)
- Pwy a gaiff ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu (rheoliad 5)
- Rôl y CGCM (gweler isod) (rheoliad 6)
- Y drefn ar gyfer asesu (RHAID gwneud asesiad os gofynnir am hynny gan 'berson penodedig') (rheoliad 8)
- Gweithdrefn, hysbysu a chynllun (rheoliadau 8,9,10)
- Penderfyniad i ddarparu cymorth (rheoliadau 13,14)
- Cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran lleoliadau y tu allan i'r ardal
- Adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu (rheoliad)

*'Ni fydd mabwysiadwyr yn gofyn am gymorth nes bydd pethau yn argyfwng, gan ofni cael eu barnu – rydym yn gweld hyn drwy'r amser ac mae angen i hyn newid.'*

AUK Cymru

*'Ni ddylai mabwysiadwyr byth glywed bod achos neu ffeil 'wedi eu cau'. Mae hyn yn rhoi'r neges gwbl anghywir ynglŷn â natur cymorth mabwysiadu.'*

Rhiant sy'n mabwysiadu

## YR HYN SYDD ANGEN IDDO DDIGWYDD

**Cymorth yn y flwyddyn gyntaf**

- Mae angen cael protocol clir ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb o'r CGM yn y tîm canfod teulu i'r tîm cymorth mabwysiadu neu'r GCM sy'n gyfrifol am gymorth mabwysiadu. Bydd gan y tîm cymorth mabwysiadu gysylltiad gyda'r teulu yn y cyfnodau cynharach a bydd felly'n gyfarwydd iddyn nhw a'u rolau. Fodd bynnag, y pwynt hwn fydd cydnabyddiaeth ffurfiol o'r newid mewn rôl.
- Bydd gan rieni sy'n mabwysiadu fynediad at y gweithiwr hwn, wedi'i enwi, o fewn yr asiantaeth sy'n cymeradwyo'r mabwysiadu, yn y flwyddyn gyntaf, ar ôl Gorchymyn Mabwysiadu.
- Mewn perthynas â lleoliadau yn y sector gwirfoddol, er bod cyfrifoldeb statudol yn gorwedd gyda'r asiantaeth osod, mae cymorth ar gael drwy'r AMG. Mae hyn yn cynnwys lleoliad cynnar a chymorth gwaith cymdeithasol parhaus a darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysol.

*"Yr hyn rydych yn ei weld yw bod pobl yn tueddu i gamu'n ôl unwaith y gwneir gorchymyn, ond gall newidiadau mawr fod o flaen y teulu o hyd, megis mynd yn ôl i'r gwaith ar ôl absenoldeb mabwysiadu, trefnu gofal plant a rheoli anghenion newidiol y plentyn. Gall y cyfnodau hyn fod yn anodd. Gall gwneud cyfeiriad i gael cymorth fod yn rhwystr i fabwysiadwyr. Trwy gynnig cyfle i deuluoedd sy'n mabwysiadu i adolygu cynllun cymorth eu plentyn 12 mis ar ôl rhoi Gorchymyn Mabwysiadu, mae hyn yn rhoi'r neges y bydd cymorth yn parhau i fod ar gael i ddiwallu anghenion esblygiadol eu plentyn."*

Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu

- Caiff adolygiad blwyddyn gyntaf ei gynnig ar holl Gynlluniau Cymorth Mabwysiadu gan gynnwys cysylltiad. Mae hwn yn gyfle, nawr bod pethau wedi 'setlo' a phan fo teuluoedd sy'n mabwysiadu yn tueddu i deimlo'n llai bregus na phan wneir y Gorchymyn Mabwysiadu, i feddwl am y cymorth sydd wedi ei roi. Yr hyn a allai fod yn ddefnyddiol o ran gwasanaethau cynhwysol, ac a oes anghenion newydd sy'n galw am asesiad ar gyfer gwasanaethau a dargedwyd neu wasanaeth arbenigol. Sut mae cysylltiad wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf?
- Mae angen i'r adolygiad fod yn gyfannol ac ystyried holl anghenion y teulu, ynghyd â bod yn unigol i bob person. Mae angen diweddaru'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu yn unol â hyn, a rhoi copi ysgrifenedig i'r teulu
- Os bydd anghenion y teulu wedi newid, efallai y bydd angen gwneud asesiad newydd. Gweler Atodiad 4 i gael y templed Asesiad Cymorth Mabwysiadu
- Mae angen atgoffa teuluoedd o'r gwasanaethau y gellir eu cynnig yn yr amrywiol gyfnodau, gan eu hystyried fel cynigion positif o weithio mewn partneriaeth yn hytrach na dangos methiant a'r teulu yn ceisio ymdopi heb gymorth. Mae'n ddefnyddiol siarad am sut y gellir cynnig help, er enghraifft mewn cyfnodau pontio
- Gall teuluoedd gysylltu â TESSA ar ôl blwyddyn gyntaf y lleoliad, pan fo angen yn isel i gymedrol. Gwneir atgyfeiriadau gan gydlynydd TESSA wedi ei leoli yn y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, gyda chaniatâd y rhieni sy'n mabwysiadu

***"Hyd yn oed ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu, cysylltu/holi a gweld sut mae pobl yn ymdopi. Sicrhau mabwysiadwyr ei bod yn iawn gofyn am help. Peidio â lleihau neu anwybyddu pryderon."***

Rhiant sy'n mabwysiadu

**Ar ôl y flwyddyn gyntaf: egwyddorion cadw mewn cysylltiad**

***Cytunodd 66% o fabwysiadwyr yng Nghymru o deuluoedd mabwysiadu sefydledig ei bod yn teimlo fel ymdrech barhaus i gael yr help a'r cymorth y mae eu plentyn eu hangen***

Baromedr Mabwysiadu AUK, 2019

***"There needs to be "an understanding that most adopted children have additional problems at some time in their childhood and that support is available without parents being made to feel to blame for any problems within the family...."***

Ottaway et al, 2014, p.85

- Bydd y cynnig i gadw mewn cysylltiad ar ôl yr adolygiad blwyddyn gyntaf yn cael ei wneud i bob teulu ar y gyd-ddealltwriaeth bod hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth, gyda'r penderfyniad yn aros gyda'r teulu sy'n mabwysiadu. Ni fydd rhai teuluoedd yn teimlo'r angen, ar hyn o bryd, i dderbyn y cynnig. Serch hynny, rhaid rhoi'r neges bod y cymorth ar gael ar unrhyw adeg.
- Bydd y nifer sy'n gofyn am wasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysol a "chadw mewn cysylltiad" ysgafn drwy gylchlythyrau, grwpiau cymorth, dyddiau teuluol a hyfforddiant yn helpu teuluoedd i ofyn am gymorth yn gynnar, cyn i broblemau fynd yn llethol. Mae'r dull hwn yn grymuso teuluoedd ac yn gadael iddyn nhw wybod eu bod yn rhan o gymuned ehangach o gymorth.
- Efallai y bydd yr adolygiad blwyddyn gyntaf wedi adnabod camau allweddol neu gyfnodau pontio lle gall fod angen cymorth ychwanegol, a bydd galwad i gadw mewn cysylltiad wedi ei threfnu (gweler y Cynllun Cymorth Mabwysiadu).

Mae rheoliad 16 ASS(LA)(W)R 2005 yn gosod ymrwymiad ar yr awdurdod lleol i adolygu darpariaeth gwasanaethau cymorth mabwysiadu os bydd unrhyw newid yn amgylchiadau'r person yn dod i'r golwg.

- Os oes cynllun yn cynnwys gwasanaethau a dargedwyd a gwasanaethau arbenigol, bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu, ar y lleiaf, gan y GCM dynodedig a'r teulu sy'n mabwysiadu naill ai ar ôl i'r ddarpariaeth gwasanaeth ddod i ben neu ar ôl blwyddyn, pa un bynnag sy'n dod gyntaf
- Yn aml, bydd darparu gwasanaethau a dargedwyd neu wasanaeth arbenigol yn meddu ar ei strwythur adolygu mewnol ei hunan. Serch hynny, dylai'r GCM sicrhau bod cyfle i drafod y tu allan i'r strwythur adolygu ffurfiol
- Os nad oes gwasanaethau a dargedwyd neu wasanaeth arbenigol yn y cynllun sy'n parhau i'r ail flwyddyn, mae angen i fabwysiadwyr fod yn glir ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw yn y rhanbarth os ydynt eisiau cyngor a chymorth.
- Mae angen protocolau clir ym mhob rhanbarth a dylid rhoi ystyriaeth o ddifrif i sicrhau bod cysylltiad cychwynnol yn cynnwys ymarferwr gyda phrofiad o fabwysiadu. Mae llawer o enghreifftiau trist o fabwysiadwyr yn derbyn gwasanaeth rheng flaen lle nad yw ymarferwyr wedi defnyddio ymateb sy'n deall trawma, a lle mae teuluoedd wedi eu gadael wedi eu cleisio neu wedi cael trawma eu hunain oherwydd y profiad o gael eu beio, yn y bôn am brofiadau bywyd cynnar y plentyn maent wedi ei fabwysiadu.
- Bydd gan fabwysiadwyr fynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf o ran y ffordd orau i gysylltu gyda'r gwasanaeth.
- Bydd cylchlythyrau gan y rhanbarth mabwysiadu ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf, o ran pwy i gysylltu â nhw.

***"Roedd yn help mawr, pan roeddem angen cymorth gyda'n mab, cael grwpiau cymorth a grwpiau babanod. Roeddem yn adnabod pawb ac roeddynt yn gwybod yn gyffredinol sut roedd pethau'n mynd. Nid oeddem yn teimlo ein bod yn cael ein barnu. Byddai wedi bod yn llawer anoddach gwneud yr alwad honno os nad oeddem yn adnabod unrhyw un..."***

Rhiant sy'n mabwysiadu

**Teuluoedd sy'n mabwysiadu yn gofyn am gymorth ar ôl y flwyddyn gyntaf**

Wrth ofyn am gymorth ar ôl mabwysiadu, dywedodd rhieni eu bod eisiau:

- Ymateb cyflym a gwasanaethau wedi eu cyflenwi'n amserol
- Gweithwyr proffesiynol sy'n deall y cyd-destun mabwysiadu, sy'n 'ymwybodol o fabwysiadu' ac sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau arbenigol
- Sy'n cryfhau cydberthnasau'r teulu ac yn hybu cymhwysedd y rhieni
- Nad ydynt yn beio'r rhieni neu'r plentyn am yr anawsterau
- Sy'n dosturiol yn eu hymateb

*(Selwyn, 2017, p.16)*

> ***"Y tro cyntaf i mi gysylltu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol siaradais gyda gweithiwr ar ddyletswydd. Roeddynt yn annwyl iawn ond ni allent ddeall yr hyn roeddem yn gofyn amdano ac ni allent helpu. Yn ffodus, bu iddyn nhw fy nghyfeirio at y tîm mabwysiadu. Am wahaniaeth!"***
>
> Rhiant sy'n mabwysiadu

Bydd cael help i deulu sy'n mabwysiadu yn digwydd drwy'r gwasanaeth cymorth mabwysiadu. Bydd hyn yn sicrhau bod teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael cymorth a chyngor gan weithiwr gyda dealltwriaeth o fabwysiadu a gwybodaeth a sgiliau arbenigol. Nid yw'n dderbyniol i rieni sy'n mabwysiadu fynd drwy'r tîm derbyn ac asesu yn yr awdurdod lleol.

Ar ôl cais am gymorth, bydd y GCM a ddyrannwyd yn:

- Ymgymryd â thrafodaeth ragarweiniol gyda rhieni sy'n mabwysiadu o'r angen, gan gymryd i ystyriaeth y cynllun cymorth mabwysiadu presennol a rhoi cymorth rhagarweiniol. Os yw'n briodol, ymgymryd ag asesiad o anghenion os oes angen diwygio / diweddaru'r cynllun cymorth presennol. Gweler **Atodiad 4**.
- Penderfynu os oes angen am wasanaethau cynhwysol ac os oes, cynorthwyo gydag atgyfeiriad os yw'n briodol.
- Penderfynu os oes angen atgyfeiriad at gymorth a dargedwyd neu gymorth arbenigol, gan gynnwys ystyried TESSA mewn trafodaeth gyda'r cydlynydd TESSA rhanbarthol (gweler isod)
- Penderfynu os oes angen ymgymryd ag atgyfeiriad gan wasanaethau'r plant dan Ran 3 SSWB(W)A lle byddant yn gweithio ar y cyd gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn (e.e. lle mae plentyn wedi cael diagnosis o ASA ac sydd angen addysg arbenigol a chymorth ychwanegol)
- Dylid ystyried y posibilrwydd bod gan y plentyn ASAFf
- Wrth ymgymryd ag asesiadau am gymorth, bydd gweithwyr cymdeithasol yn gofyn i rieni os ydynt yn profi trais plentyn tuag at rieni fel rhywbeth arferol.

Mae Selwyn a Meakings (2015, 2016, t.19-20) yn dadlau bod angen i weithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd ag asesiadau gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu ofyn yn benodol i deuluoedd os ydynt yn profi trais gan y plentyn tuag at y rhieni. Maent yn honni ***"mae rhieni yn annhebygol o wirfoddoli'r wybodaeth oni ofynnir iddynt yn uniongyrchol. Mae mwy nag un stigma yn gysylltiedig â thrais gan blentyn yn erbyn rhiant – bod yn rhiant i blentyn sy'n ymddwyn yn wael a phrofi trais gan y plentyn yn y cartref. Gyda rhieni mabwysiadol, mae gwarth pellach, gan eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu hasesu a'u cymeradwyo fel rhieni mabwysiadol a chael plentyn i ofalu amdano. Maent yn teimlo eu bod wedi methu ac roedd y farn hon yn aml yn cael ei chryfhau gan yr ymateb gan weithwyr proffesiynol a ddywedodd wrth y rhieni eu bod wedi gadael y plentyn a hwythau i lawr, gan roi'r bai ar y rhieni am ymddygiad y plentyn a defnyddio termau fel 'lleoliad wedi methu."***

**Yr asesiad cymorth mabwysiadu (Atodiad 4)**

Mae hon yn ffurflen asesu annibynnol i'w defnyddio yng Nghymru.

**Y cynllun cymorth mabwysiadu (Atodiad 5)**

Mae'r fformat newydd ar gyfer y cynllun cymorth mabwysiadu:

- Yn darparu cynllun annibynnol sydd ar wahân i'r ffurflenni eraill cyn mabwysiadu a ddarperir gan CoramBAAF
- Yn darparu dogfen Cymru gyfan a fydd yn cynorthwyo gyda darparu cymorth ar draws y rhanbarthau
- Yn annog asesiad a arweinir gan gryfderau o anghenion cymorth mabwysiadu
- Yn galluogi adolygiadau a diwygiadau mewn cyfnodau penodol, cyn ac ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu
- Yn sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu a chymorth arbenigol wedi ei gytuno yn briodol

Caiff y cynllun:

- Ei greu gyda'r paru gan ddwyn at ei gilydd anghenion y plentyn a'r darpar fabwysiadwyr
- Ei adolygu a'i ddatblygu yn ystod cyflwyniadau
- Ei adolygu a'i ddatblygu adeg lleoli
- Ei adolygu mewn adolygiadau statudol
- Ei adolygu a'i ddatblygu wrth ragweld Gorchymyn Mabwysiadu
- Ei adolygu a'i ddatblygu ar ôl Gorchymyn Mabwysiadu
- Ei adolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf wedi'r Gorchymyn Mabwysiadu
- Ei adolygu wedyn efallai bob blwyddyn, yn amodol ar anghenion y teulu, ac eithrio lle mae gwasanaethau a dargedwyd / arbenigol wedi eu darparu a'u hadolygu

Cynigir adolygiadau (ar ffurf cynnig i “gadw mewn cysylltiad”):

1) Ar unrhyw adeg ar gais y teulu sy’n mabwysiadu, a
2) Gyda chaniatâd y rhieni sy’n mabwysiadu ymlaen llaw, yn y cyfnodau canlynol:
    - Wrth ragweld cychwyn gofal meithrin / gofal dydd cyn ysgol
    - Wrth ragweld cychwyn yn yr ysgol gynradd
    - Wrth bontio o ysgol fabanod i ysgol iau
    - Wrth bontio o’r ysgol gynradd i’w uwchradd
    - Ar ddechrau Blwyddyn 10
    - Unrhyw adeg lle mae cysylltiad gydag aelodau o’r teulu biolegol wedi mynd yn anodd neu lle mae cynllun i ehangu cysylltiad

Gall fod yn ddefnyddiol anfon holiadur cyn y cyfarfod ‘cadw mewn cysylltiad’ / ffonio i ysgogi teuluoedd sy’n mabwysiadu, er enghraifft mewn perthynas ag addysg.

**Pwy sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu**

Y tair blynedd gyntaf

Rheoliad 15 ASS(LA)(W)R 2005

Am y tair blynedd gyntaf ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu yr awdurdod lleoli sy’n gyfrifol am ymgymryd ag asesiad o angen, a lle’n briodol, am ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Os yw’r plentyn a’r teulu yn byw beth pellter oddi wrth y rhanbarth mabwysiadu sy’n lleoli, dylai’r awdurdod lleoli gysylltu gyda’r rhanbarth mabwysiadu lle mae’r plentyn a’r teulu yn byw. Bydd y CGCM yn y rhanbarthau / asiantaethau perthnasol yn cysylltu mewn perthynas â threfniadau. Gall yr awdurdod preswyl adennill treuliau gan yr awdurdod lleoli mewn perthynas â gwasanaethau cymorth mabwysiadu (ond nid os mai dim ond darparu cyngor a gwybodaeth a wneir) am y tair blynedd gyntaf (rheoliad 15(3)).

Mae gan y CGCM rôl benodol mewn cydlynu lle mae trefniadau trawsffiniol i’w gwneud.

Nid oes unrhyw beth yn rhwystro awdurdod lleol / sefydliad cydweithredol rhanbarthol rhag darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu i berson y tu allan i’w hardal os ydynt yn ystyried bod hynny’n briodol (rheoliad 15(5).

Y protocol ar gyfer pontio llyfn

- Os yw’r plentyn wedi ei leoli o’r cychwyn cyntaf mewn rhanbarth breswyl wahanol, bydd y rhanbarth leoli, gyda chaniatâd y rhieni sy’n mabwysiadu, yn hysbysu’r rhanbarth breswyl bod y Gorchymyn Mabwysiadu wedi ei wneud, gan roddi, i bob pwrpas, hysbysiad o dair blynedd
- Pan fydd yn chwe mis cyn diwedd y cyfnod tair blynedd bydd y rhanbarth leoli, gyda chaniatâd y rhieni sy’n mabwysiadu, yn hysbysu’r rhanbarth berthnasol yng Nghymru neu’r awdurdod rhanbarthol / awdurdod lleol os yw y tu allan i Gymru, o unrhyw angen parhaus am wasanaethau
- Bydd y CGCM perthnasol yn cydlynu i ddarparu trosglwyddiad llyfn o gyfrifoldebau.

Ar ôl tair blynedd

Mae’r awdurdod preswyl yn cymryd cyfrifoldeb am gymorth mabwysiadu, ac eithrio cymorth ariannol a chymorth sy’n ymwneud â chysylltiad – mae hynny’n parhau i fod yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleoli.

**Rôl y CGCM (cynghorydd gwasanaeth cymorth mabwysiadu)**

Rheoliad 6 Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) Cymru) 2005

Rhaid i bob ALl benodi o leiaf un CGCM (nid oes dyletswydd ar AFW ond mae gan y ddwy AFW yng Nghymru un)

Y swyddogaethau yw:

- Rhoi cyngor a gwybodaeth i bersonau a all fod wedi eu heffeithio gan fabwysiadu am wasanaethau a sut y gellir cael mynediad at y gwasanaethau hynny
- Rhoi cyngor a gwybodaeth i’r ALl am asesiad, argaeledd gwasanaethau a llunio’r CCM
- Rhoi cyngor a gwybodaeth i ALl eraill lle lleolir plentyn neu lle mae’n symud

Mae rôl y CGCM yn hollbwysig pan ddaw’n fater o drafod gydag asiantaethau allanol, boed yn awdurdodau addysg neu iechyd neu ranbarthau neu wledydd eraill lle nad yw’r awdurdod preswyl yn awdurdod lleoli.

**Rôl Adoption UK Cymru o ran cymorth mabwysiadu**

Adoption UK Cymru

Mae’r cymorth a gynigir gan AUK Cymru ar gael ledled Cymru ac mae’n cynnwys llinell gymorth, cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant. Mae AUK Cymru yn hwyluso cymuned cymorth mabwysiadu ledled y wlad, gan ddarparu cymorth cymheiriaid i rieni, plant a phobl ifanc.

TESSA (Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu)

Mae TESSA, gwasanaeth cymorth cenedlaethol a redir gan Adoption UK Cymru a sefydliadau cydweithredol rhanbarthol ac wedi ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn anelu at gefnogi a hyrwyddo rhianta therapiwtig sy’n seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith trawma ar ddatblygiad plentyn. Mae’n darparu ymgyngoriadau seicolegol, hyfforddiant, cymorth cymheiriaid, cyngor ar faterion ysgol a mynediad at wasanaethau sy’n canolbwyntio ar les teuluol.

Er mwyn cael ei ystyried ar gyfer atgyfeiriad, rhaid i’r plentyn fod wedi ei leoli gyda’r teulu sy’n mabwysiadu am flwyddyn o leiaf ac yn cael anawsterau sy’n gofyn am lefel isel i gymedrol o gymorth. Mae gan bob rhanbarth gydlynydd TESSA i gynorthwyo gyda’r atgyfeiriadau hyn ac sy’n cysylltu gyda’r gwasanaeth.

### Gwasanaeth plant a phobl ifanc

Gelwir y fframwaith cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi eu mabwysiadu yn Connected. Mae hwn yn wasanaeth cydweithredol a arweinir gan Adoption UK ac mae'n cynnwys cyflenwi pedair elfen:

1) Grwpiau cysylltiedig ar gyfer plant 7 – 11 oed a phobl ifanc hyd at 25 oed;
2) Gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc;
3) Hyfforddiant ymwybyddiaeth o fabwysiadu;
4) Llysgenhadon mabwysiadu.

Mae gan bob rhanbarth wasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi eu mabwysiadu sy'n cynnwys gwaith uniongyrchol a chydlynu gydag Adoption UK ar yr elfennau uchod.

### Atgyfeiriadau oherwydd anghenion dysgu ychwanegol

Os oes angen atgyfeiriad ysgol ar gyfer plentyn mewn perthynas ag angen dysgu ychwanegol, mae angen cael cysylltiad agos rhwng y gweithiwr cymorth mabwysiadu rhanbarthol a chydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol / pennaeth ymarferol. Mae'r ddolen hon yn sicrhau bod unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yng nghyd-destun dealltwriaeth o drawma mewn perthynas ag anghenion y plentyn.

### Atgyfeiriadau i wasanaethau plant am blant sydd wedi eu mabwysiadu

Mae effaith gydol oes ar gyfer plant sydd wedi dioddef trawma datblygiadol cynnar ym mhob maes o'u datblygiad a'u gweithrediad. Mae rhianta sensitif ac empathig yn helpu gydag adfer ond mae hon yn broses sy'n gymhleth ac weithiau yn un hir.

Nid yw sbardunau trawma cynnar ac ymddygiad y plentyn wedi hynny bob amser yn cael eu deall yn dda gan weithwyr proffesiynol, cymheiriaid a'r teulu ehangach, ac yn aml mae camddealltwriaeth o'r hyn y mae'r plentyn yn ei arddangos. Gall canlyniad hyn gael effeithiau eang a dinistriol ar y teulu sy'n mabwysiadu a'r plentyn.

- Bydd awdurdodau lleol a sefydliadau cydweithredol rhanbarthol yn trefnu hyfforddiant ar y cyd gydag ymarferwyr gofal plant a mabwysiadu yn ystyried anghenion cymorth teuluoedd sy'n mabwysiadu yn dod drwy ddrws ffrynt yr awdurdod lleol, yn enwedig lle mae pryderon amddiffyn wedi eu codi. Bydd sylfaen o ddulliau deall trawma yn sylfaen i'r hyfforddiant wrth ymateb i deuluoedd sy'n mabwysiadu mewn argyfwng
- Os bydd y plentyn yn dod yn destun atgyfeiriad gofal a chymorth neu amddiffyn plentyn, bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn (GCP) yn cyfeirio'r teulu (gyda'u caniatâd) i'r gwasanaeth mabwysiadu perthnasol, i gael cyngor a chymorth neu, os nad yw hynny'n briodol, cyngor i weithiwr cymdeithasol y plentyn ar faterion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, megis effaith trawma datblygiadol, trawma eilaidd, ymlyniad a tharddiad niwed arwyddocaol.
- Os daw plentyn yn destun ymchwiliad amddiffyn plentyn, mae gan y GCM rôl i'w chwarae i sicrhau bod y GCP yn meddu ar agwedd deall trawma tuag at yr ymchwiliad a bod y teulu sy'n mabwysiadu yn cael ei drin gyda pharch cyfreithiol a phroffesiynol tuag at eu bywyd teuluol sy'n cydnabod natur unigryw mabwysiadu, ac ar yr un pryd yn cydnabod bod rhieni sy'n mabwysiadu yr un mor bwysig ac aelodau'r teulu biolegol.



# Cydnabyddiaeth

Diolch yn fawr i'r bobl a'r sefydliadau canlynol sydd wedi bod yn offerynnol yn drafftio'r canllawiau hyn.

- Ein grŵp cyfeirio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhanbarth mabwysiadu a'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a CAFCASS Cymru.
- Aelodau grŵp polisi ac arferion y GMC
- Rheolwyr tîm mabwysiadu rhanbarthol a rheolwyr tîm gofal plant sydd hefyd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigrwydd
- AUK Cymru, wrth roddi adborth fanwl ac awgrymiadau
- Yr ymatebwyr i'r holiaduron: teuluoedd biolegol, teuluoedd sy'n mabwysiadu, gofalwyr maeth a phobl ifanc gyda phrofiad o fabwysiadu

Ni fyddai'r canllaw hwn wedi bod yn bosibl heb haelioni a brwdfrydedd yr ymarferwyr yn y rhanbarthau ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol am rannu enghreifftiau mor ysbrydoledig o arferion da ledled Cymru.

## CYDWEITHREDIADAU RHANBARTHOL

Gwasnaeth Mabwysiadau Gogledd Cymru | North Wales Adoption Service

**Gogledd Cymru**
Ynys Môn, Gwynedd, Conwy,
Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam

Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adoption Mid & West Wales

**Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin,
Sir Benfro

South East Wales Adoption Service
Achieving More Together
Gwasaneth Mabwysiadu Deddwyrain Cymru
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd !

**De Ddwyrain Cymru**
Sir Fynwy, Blaenau Gwent,
Torfaen, Caerffili, Casnewydd

Western Bay
ADOPTION SERVICE
GWASANAETH MABWYSIADU
Bae'r Gorllewin

**Bae'r Gorllewin**
Abertawe, Castell-nedd Port Talbot,
Pen-y-bont ar Ogwr

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

**Y Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd**
Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf,
Cardiff, Vale of Glamorgan

## POB GWIRFODDOL CYMRU WASANAETHAU ASIANTAETHAU MABWYSIADU

adoptionuk
ar gyfer pob teulu sy'n mabwysiadu
for every adoptive family

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

St David's Children Society
Cymdeithas Plant Dewi Sant

# Cyfeiriadau


Y Baromedr Mabwysiadu Gorffennaf 2019, Adoption UK [Wedi ei gael arlein] https://www.adoptionuk.org/Handlers/Download.ashx?IDMF=fd3d3969-8138-4ede-befd-1018fe629c29

Anthony, R, Meakings, S, Doughty, J (2016) Factors affecting adoption in Wales: predictors of variation in time between entry to care and adoptive placement. Children and Youth Services Review 60: 184–190.

Argent, H. a Coleman. J (2006) Dealing with Disruption, Llundain: BAAF in McNeish, D. and Scott, S. (2013) *What Works in Achieving Adoption for Looked After Children: An Overview of Evidence for the Coram/Barnardo's Partnership*, Llundain, Coram a Barnardo's.

Adoption UK (2019) The Adoption Barometer, Banbury, Adoption UK [Wedi ei gael arlein] https://www.adoptionuk.org/Handlers/Download.ashx?IDMF=fd3d3969-8138-4ede-befd-1018fe629c29

Bonin, E, Beecham, J, Dance, C, Farmer, E (2014) Support for adoption placements: the first six months. British Journal of Social Work 44(6): 1508–1525.

Boswell, S. a Cudmore, L. (2014) *The Children were Fine*, in Adoption and Fostering, 2014 [Wedi ei gael arlein] http://www.thechildrenwerefine.co.uk/the-full-paper.html

Corrigan, M. a Moore, J. (2011) *Listening to Children's Wishes and Feelings*, Llundain, BAAF.

Farmer E, Dance C. Family Finding and Matching in Adoption: What Helps to Make a Good Match? (2016) Br J Soc Work. Jun; 46(4):974-992. British Journal of Social Work.

Holmes L, McDermid S and Lushey C (2013) Post-adoption Support: A rapid response survey of Local Authorities in England. Working Paper No: 19. Loughborough: Childhood Wellbeing Research Centre.

Kempenaar, M.A.W. (2015), Briefing Paper 1: Support for New Adoptions and Adoption Support Plan Document

King, S., Gieve, M., Lacopini,G., Hahne, A, Stradling,H., (2017) The Evaluation of the Adoption Support Fund, The Tavistock Institute of Human Relations, Adran Addysg.

Moyer, A.M. a Goldberg, A.E. (2017) *'We were not planning on this, but…'*: Adoptive parents' reactions and adaptations to unmet expectations. Child and family social work. 22, pp. 12-21.

Meakings, S. Ottaway, H. a Coffey, A. (2018) The support needs and experiences of newly formed adoptive families: findings from the Wales Adoption Study, Sage [Wedi ei gael arlein] https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/0308575917750824

Meakings, S, Coffey, A, Shelton, K (2016) A study examining the concerns, support needs and experiences of newly formed adoptive families. Journal of Health Visiting 4(11): 562–570.

Meakings, S, Coffey, A, Shelton, K (2017) The influence of adoption on sibling relationships: experiences and support needs of newly formed adoptive families. British Journal of Social Work 47(6): 1781–1799.

National Adoption Service Post Approval training and Development Framework: Post Approval Adoption Training Modules [Wedi ei gael arlein] https://adoptcymru.com/adopter-training-modules

Ottaway, H., Holland, S. a Maxwell, N. (2014), *The Provision and experience of adoption support services in Wales: Perspectives from adoption agencies and adoptive parents*, Cardiff University, CASCADE Children's Social Care Research and Development Centre.

Pennington, E. (2012) It takes a village to raise a child, Adoption UK survey on adoption support, [Wedi ei gael arlein] https://www.adoptionuk.org/it-takes-a-village-to-raise-a-child

Rees, A, Hodgson, P (2017) Regionalisation: improving the adoption experience in Wales. Adoption & Fostering 41(3): 215–227.

Selwyn, J. Wijedasa, D. a Meakings, S. (2014) *Beyond the Adoption Order, challenges, interventions and adoption disruption*: Research report. Llundain: Adran Addysg.

Selwyn, J. a Meakings, S. (2015b) *Beyond the Adoption Order (Wales): discord and disruption*, Adroddiad i Lywodraeth Cymru.

Selwyn, J. a Meakings, S. (2016) 'Adolescent to parent violence in adoptive families', British Journal of Social Work, vol. 46, no. 5, pp. 1224-1240. https://doi.org/10.1093/bjsw/bcv072

Selwyn, J (2017) Post-adoption Support and Interventions for Adoptive Families: Best practice approaches, Munich: Deutsches Jugendinstitut.

Stock,L., Spielhofer, T,. a Gieve, M. (2016) *Independent evidence review of post-adoption support interventions*: Research report, The Tavistock Institute of Human Relations, Depart for Education.

Thomas, C. (2013) *Adoption for looked after children: messages from research: An overview of the Adoption Research Initiative*, Llundain, CoramBAAF.

# Atodiad 1

## Galwad ac adduned Cynghrair Sibling

### EIN GALWAD

**"Mae gan holl blant a phobl ifanc gyda phrofiad o ofal yr hawl i gael perthynas gyda'u siblingiaid."**

### PWY YDYN NI?

Rydym yn gynghrair o sefydliadau sy'n angerddol ynglŷn â hawliau plant a phobl ifanc sydd a phrofiad o ofal a rhai sydd wedi eu mabwysiadu.

- Lleisiau o Care Cymru
- Plant yng Nghymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Adoption UK
- Rhwydwaith Maethu
- AfA Cymru
- Prifysgol Caerdydd

Mae pobl ifanc gyda phrofiad o ofal wedi dweud wrthym dro ar ôl tro am eu rhwystredigaeth gyda diffyg cysylltiad gyda'u brodyr a'u chwiorydd pan maent wedi eu gwahanu. Wrth ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc am eu hiechyd a'u lles, canfuasom bod cydberthynas yn bwysig yn sylfaenol ac yn chwarae rôl arwyddocaol o ran lles beunyddiol plant a phobl ifanc mewn gofal. Roedd treulio amser gyda brodyr a chwiorydd yn nodwedd a grybwyllwyd yn aml mewn sgyrsiau am les, hapusrwydd, cydberthynas iach, hawliau a symud i annibyniaeth. Yn yr un modd, mae llawer o bobl ifanc yn dweud wrthym nad yw natur eu cysylltiad gyda siblingiaid yn cyd-fynd â bywyd modern, yn enwedig gyda manteision technoleg a chyfryngau cymdeithasol. Rydym felly wedi datblygu'r adduned isod ac rydym yn gofyn i holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau Plant a/neu gyda phlant ledled Cymru i arwyddo.

### EIN HADDUNED

**Yr adduned i blant mewn gofal a'u brodyr a'u chwiorydd**

Rydym yn galw ar bob sefydliad sector cyhoeddus a sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd a phrofiad o ofal i gytuno gyda'r canlynol.

Ymrwymo i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ac optimeiddio defnyddio technoleg i:

1. Ddarparu gwybodaeth i blant am eu siblingiaid
   Dylid rhoi gwybodaeth glir, gyfredol i blant a phobl ifanc am fodolaeth siblingiaid ar bob cam ar eu taith.
2. Cofnodi holl gydberthnasau sibling
   Bydd holl gydberthnasau sibling plentyn yn cael eu cofnodi'n glir ym mhob cofnod a chynllun gofal cymdeithasol.
3. Gweithredu asesiadau cydberthynas sibling gydol oes
   Bydd asesiadau "Gyda'i Gilydd ac Ar Wahân" yn cael eu gwella drwy sicrhau bod asesiadau yn cael eu hysgrifennu a'u hadolygu fel asesiadau cydberthnasau sibling gydol oes.
4. Cofnodi barn plant
   Bydd barn plant ar gysylltiad gyda siblingiaid yn cael ei chofnodi'n agored fel rhan o unrhyw achosion ymyrraeth neu gyfraith gyhoeddus Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac adolygiadau statudol.
5. Cynllunio ar gyfer cydberthnasau sibling parhaus ac ystyrlon
   Beth bynnag yw'r fframwaith cyfreithiol, bydd cynlluniau unigol, hyblyg a chydag adnoddau ar gyfer cydberthnasau parhaus hyd nes bydd pobl ifanc yn oedolion yn cael eu dilyn, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.
6. Adolygu iaith 'cysylltu'.
   Mae geiriau'n bwysig. Mae pobl ifanc yn aml yn dweud wrthym bod iaith gofal wedi ei phroffesiynoli, yn oeraidd ac yn achosi stigma. Dylid felly cyfeirio at gyfarfod siblingiaid fel cyfleoedd 'cadw mewn cysylltiad'.

_____

*Diffiniad: Mae sibling yn cynnwys sibling llawn, hanner sibling, llys-sibling drwy briodas neu bartneriaeth sifil, sibling drwy fabwysiadu, ac unrhyw berson arall y mae'r plentyn yn ei ystyried fel sibling a gyda'r hwn y mae ganddynt fywyd teuluol sefydledig [c. Erthygl 8, Siarter Hawliau Dynol Ewrop].*

# Atodiad 2

## Sut i ddefnyddio'r pedwar canllaw ar draws amser penodol yn nhaith y plentyn

### AR GYFER PWY Y MAE'R CANLLAW HWN?

Mae'r canllaw hwn wedi ei fwriadu ar gyfer holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar fabwysiadu a chymorth mabwysiadu. Mae'r rhain yn cynnwys:

1) Gweithiwr cymdeithasol y plentyn (GCP). Gweithiwr cymdeithasol y plentyn yw'r ymarferwr sydd, fel asiant yr awdurdod lleol, â chyfrifoldeb rhiant blaenaf am y plentyn, drwy orchymyn gofal interim dan a38 a Gorchymyn Gofal dan a31 Deddf Plant 1989 ac, os rhoddir Gorchymyn Lleoli, dan a21 ACA 2002, nes gwneir Gorchymyn Mabwysiadu. Mae gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn gyfrifol am gynllunio gofal ar gyfer mabwysiadu a'r penderfyniadau a gymerir mewn perthynas â chanfod teulu a pharu gyda darpar fabwysiadwyr. Ni ellir tanamcangyfrif eu rôl ac mae'r canllawiau wedi eu dylunio i gynorthwyo gweithiwr cymdeithasol y plentyn, beth bynnag yw eu profiad mewn gwaith mabwysiadu, i sicrhau y gallent gyflawni eu dyletswyddau statudol, rheoleiddio ac arferion da mewn perthynas â'r plentyn y mae ganddynt gyfrifoldeb amdano.

2) Gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu rhanbarthol (GCM). Dan Gyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015, mae pob awdurdod lleol yn rhoi'r cyfrifoldeb am asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr, canfod teuluoedd, paru, cyflwyniadau a lleoli, a chymorth mabwysiadu i deuluoedd sy'n mabwysiadu a theuluoedd biolegol, i un o'r pum sefydliad cydweithredol rhanbarthol: Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd, Bae'r Gorllewin, Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae'r canllawiau wedi eu llunio i helpu'r sefydliadau mabwysiadu cydweithredol rhanbarthol i rannu a datblygu arferion da ledled y wlad. Eu nod hefyd yw helpu'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu a gweithiwr cymdeithasol y plentyn i fod yn glir ar eu meysydd cyfrifoldeb a lle mae angen iddyn nhw weithio gyda'i gilydd.

3) Gweithiwr cymdeithasol asiantaeth fabwysiadu wirfoddol. Lle mae darpar fabwysiadwyr wedi eu hasesu a'u cymeradwyo gan un o'r ddwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol sy'n gweithredu yng Nghymru: Cymdeithas y Plant Dewi Sant a Barnardo's Cymru, yna mae elfen ychwanegol, sef bod y gweithiwr cymdeithasol AMG yn cysylltu gyda'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu rhanbarthol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

4) Y Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA). Mae gan yr SAA rôl hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o gynllunio gofal ac adolygu ar gyfer plentyn y mae ei gynllun gofal yn golygu mabwysiadu. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at swyddogaethau'r broses adolygu drwyddynt draw, er mwyn i bawb sy'n gweithio ar gynnydd y plentyn i sefyllfa barhaol allu defnyddio'r fframwaith adolygu yn fwyaf effeithiol.

5) Gwarcheidwad y Plentyn. Mae rôl y Gwarcheidwad mewn achosion gofal, lleoli ac, weithiau, mabwysiadu, yn darparu elfen annibynnol bwysig yn y broses o gynllunio ar gyfer sefyllfa barhaol i'r plentyn drwy fabwysiadu. Bydd y canllawiau yn rhoi esboniad defnyddiol a manylion i warcheidwaid ar yr arferion a ddisgwylir ac a ddatblygir ledled Cymru.

6) Aelodau'r panel mabwysiadu o ran craffu ar y cynllun cymorth mabwysiadu.

7) Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu

### TERMAU

Nid oes llawer o feysydd mwy sensitif na mabwysiadu lle mae termau – beth a elwir pobl – dan sylw. Mae'n bwysig, er mwyn cael eglurder cyfreithiol ynghyd â pharch i unigolion, bod yr un termau'n cael eu defnyddio ym mhob un o'r canllawiau.

1) Mae rhieni sy'n ddarpar fabwysiadwyr yn aros yn 'rieni sy'n ddarpar fabwysiadwyr' drwy gydol y broses asesu, cymeradwyo a lleoli'r plentyn, nes gwneir y Gorchymyn Mabwysiadu, pan fyddant yn dod yn 'rieni sy'n mabwysiadu'

2) Mae rhieni'r plentyn, sef y rhieni biolegol, yn cadw eu statws fel rhieni nes gwneir y Gorchymyn Mabwysiadu, ac wedyn maent yn cael eu galw'n 'rieni biolegol' i'w gwahaniaethu o'r rhieni sy'n mabwysiadu, sydd nawr â chyfrifoldeb rhieni llawn. I bwrpas y canllawiau, cyfeirir atynt fel rhieni biolegol.

3) Gweithiwr cymdeithasol y plentyn nid gweithiwr cymdeithasol gofal plant.

# Atodiad 3

## Mesurau Perfformiad Allweddol yn ymwneud â Gwaith Taith Bywyd

### MESURAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Mae dau fesur allweddol yn y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â deunyddiau Taith Bywyd. Mae'r cyntaf yn mesur y nifer o blant lle mae deunyddiau taith bywyd wedi eu darparu gan y Panel Paru. Diffinnir deunydd Taith Bywyd yn y Panel Paru fel

- Llythyr bywyd diweddarach drafft a llyfr stori bywyd drafft.

Mae'r ail yn mesur nifer y plant sydd wedi eu lleoli ar gyfer mabwysiadu lle mae eu deunydd taith bywyd wedi ei ddarparu i fabwysiadwyr erbyn yr ail adolygiad. Diffinnir deunydd taith bywyd yn yr ail adolygiad fel

- Gwaith paratoi gyda'r plentyn (gwaith uniongyrchol gan gynnwys siart achau, llinellau amser, llyfrau stori, ecofapiau a fyddai'n mynd gyda'r plentyn adeg lleoli)
- Llythyr bywyd diweddarach

ynghyd â naill ai

- Deunydd stori bywyd – llyfr neu ffolder neu gofnod digidol o wybodaeth am deulu biolegol y plentyn, rhesymau eu bod yn derbyn gofal a pham y maent wedi eu mabwysiadu, neu
- Gwaith stori bywyd – cynnyrch gwaith uniongyrchol, a ystyrir yn aml fel gwaith "therapiwtig" fel dull o adrodd stori hanes bywyd y plentyn er mwyn galluogi i'r plentyn ddeall ei orffennol. Gall hyn gynnwys blwch cofiannau ac adeiladu ar lyfr stori bywyd.

Ni fydd deunyddiau fel blwch cofiannau neu lyfr ffotograffau yn ddeunydd taith bywyd oni fyddant wedi eu gosod yn nghyd-destun gwaith uniongyrchol.

(Fframwaith Rheoli Perfformiad GMC)

### LLYFRAU TAITH BYWYD

***"Rwy'n teimlo'n hapus bod y ffotograffau, y cerrig milltir, pethau am y tro cyntaf a straeon eraill rydym wedi eu cofnodi yn cael lle ac y byddant yn cael eu rhannu gyda hi pan fydd yn hŷn. Rydym eisiau iddi wybod pa mor werthfawr yw hi!"*** (Gofalwr maeth)

Gellir defnyddio ffotograffau a dynnwyd yn ystod eu cyfnod mewn gofal maeth ac yna yn ystod cyfnodau pontio fel rhan o nifer o lyfrau Taith Bywyd a grëwyd ac a gefnogir gan y tîm sy'n cefnogi'r plentyn a'r mabwysiadwyr. Yn fwyaf arwyddocaol, gobeithir y bydd y syniad o deulu 'Sy'n Rhoi Gofal' yn rhoi teimlad i'r plentyn bod y gofalwyr maeth yn rhoi caniatâd i'r plentyn symud ymlaen, i'w teulu 'Tyfu i Fyny'. Mae'r llyfrau hyn yn cofnodi trosglwyddiad y plentyn i'r teulu 'tyfu i fyny' a byddant yn helpu'r plentyn i gofio a gwneud synnwyr o'r newid.

Mae'r llyfrau hyn yn cynnwys:

- **Llyfr am y teulu biolegol** – esboniad o beth o hanes y plentyn
- **Llyfr am y teulu sy'n gofalu** – cyfnod y plentyn gyda gofalwyr maeth (a'r hyn y mae gofalwyr maeth yn ei wneud: gofal am)
- **Llyfr croeso i 'nheulu** – wedi ei greu gan y darpar fabwysiadwyr
- **Llyfr/gwybodaeth Symud i 'nheulu newydd** – sut y bu i'r mabwysiadwyr gyfarfod a dod i adnabod y plentyn, gyda help y gofalwyr maeth a'r gweithgareddau a gwblhawyd gan y plentyn ar eu taith



# Atodiad 4

## Asesiad Cymorth Mabwysiadu



Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**ASESIAD ANGHENION AM WASANAETHAU CYMORTH MABWYSIADU CYMRU GYFAN**

| **Rhanbarth:** | |
|---|---|

Dylid defnyddio'r ddogfen hon wrth gwblhau asesiadau cymorth mabwysiadu ar bob cam ac eithrio'r cynllun cymorth mabwysiadu cyntaf. Bydd AMP/B y plentyn, ADF y darpar rieni mabwysiadol a dogfennau paru yn bwydo gwybodaeth i'r cynllun cymorth mabwysiadu cyntaf.

Defnyddir yr wybodaeth yn y ddogfen hon, ar gyfer pob asesiad wedyn, i fwydo gwybodaeth i, a datblygu a diweddaru Cynllun Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan.

Gellir defnyddio'r cynllun ar y cyd â chynllun gofal a chymorth Rhan 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

| | |
|---|---|
| **Enw'r plentyn (enw geni neu enw a fabwysiadwyd fel y bo'n briodol):** | |
| **Dyddiad geni:** | |
| **Enw'r teulu mabwysiadol:** | |
| **Awdurdod lleoli:** | |
| **Awdurdod preswyl (os yw'n wahanol):** | |
| **Asiantaeth fabwysiadu wirfoddol (os yn chwarae rhan):** | |
| **Dyddiad lleoli:** | |
| **Dyddiad y gorchymyn mabwysiadu:** | |

| | **Gwybodaeth Atgyfeirio** |
|---|---|
| **Dyddiad Atgyfeiriad presennol:** | |
| **Enw'r person sy'n gofyn am asesiad:** | |
| **Dyddiad y cynllun cymorth mabwysiadu neu'r adolygiad diwethaf:** | |
| **Enw'r gweithiwr cymdeithasol cymorth mabwysiadu sy'n ymgymryd â'r asesiad:** | |

Cedwir yr holl hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru

Asesiad Anghenion am Wasanaethau Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan GMC 1

Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen Asesiad o'r Angen am Wasanaethau Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan yn:
www.adoptcymru.co.uk/Canllaw-Arferion-Da

# Atodiad 5

## Cynllun Cymorth Mabwysiadu

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**CYNLLUN CYMORTH MABWYSIADU CYMRU GYFAN**

| **Rhanbarth:** | |
|---|---|

**Sut i ddefnyddio'r templed hwn**

Defnyddir y templed hwn ar gyfer y cynllun cymorth mabwysiadu cyntaf a'r holl gynlluniau wedi hynny:

- lle mae asesiad llawn wedi ei gwblhau, neu
- lle mae cynllun yn cael ei newid, o ganlyniad i adolygiad.

Mae'r templed ar gyfer y Cynllun Cymorth Mabwysiadu cyntaf i'w weld ar dudalennau 2 – 4. Caiff y cynllun hwn ei gwblhau gan ddefnyddio AMP/B y plentyn, ADF y darpar fabwysiadwyr, gwybodaeth o'r Cyfarfod / Diwrnod Deall y Plentyn a'r holl ddogfennau paru.

Mae'r templed ar gyfer adolygiad o'r cynllun ar ôl y cynllun cymorth mabwysiadu cyntaf i'w weld ar dudalennau 6 – 9. Bydd yr adolygiad naill ai:

a) yn cadarnhau bod y cynllun presennol yn parhau i fod yn addas, a chytunir dyddiad adolygiad pellach a'i nodi ar y cynllun;
b) yn newid y cynllun presennol, ond heb yr angen am asesiad llawn, a chytunir dyddiad adolygiad pellach a'i nodi ar y cynllun; neu
c) yn penderfynu bod angen asesiad llawn. Os felly, caiff y cynllun ei ddiwygio ar ôl yr asesiad hwnnw, gan ddefnyddio templed Asesiad o'r Angen am Wasanaethau Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan, ac fe gytunir dyddiad adolygiad pellach a'i nodi ar y cynllun.

Cedwir yr holl hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru

Cynllun Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan GMC 1

Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen Cynllun Cymorth Mabwysiadu Cymru Gyfan yn:
www.adoptcymru.co.uk/Canllaw-Arferion-Da

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 409 Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW

F: 029 2087 3927
**www.adoptcymru.com**

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

AFA Cymru
Uned G14, Ty Antur
Navigation Parc,
Abercynon CF45 4SN

F: 02920 761155
**www. afacymru.org**

AFA Cymru
W2 Canolfan Fusnes Morfa Clwyd,
84 Ffordd Marsh, Y Rhyl
Sir Ddinbych LL18 2AF

F: 01745 336336